

Y LLOFFWR



**PAPUR BRO
CYLCH DINEFWR**

~~~  
**RHIF 339 - 80c**

~~~  
TACHWEDD 2012

~~~  
**[ylloffwr@papurbro.org](mailto:ylloffwr@papurbro.org)**



## LLWYDDIANT Y FFERMWYR IFANC

Clwb Llangadog - prif enillwyr Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr



Cyflwyno'r gadair i'r llenor buddugol -  
Meinir Jones, Llanfynydd



Pencampwyr Cymru a Lloegr mewn  
cystadleuaeth ddarllen Saesneg



## ~ O GWMPAS BRO DINEFWR ~

### SIOE LLANSAWEL



1. Mary Williams, Neuadd Wen, Talylychau, enillydd prif wobwr adran gelf y sioe.
2. Eirlys Davies o Siloh gyda'r cennin a enillodd iddi'r brif wobwr yn yr adran garddwriaeth ynghyd â dwy brif wobwr arall sef blodau a nwyddau cadw.
3. Gyda'r llywydd Iwan Thomas mae Lowri Davies, Esgairliving, enillydd Tarian Her Mrs Wynne, adran gwaith llaw.
4. Arwel a Sion Davies gyda'r llywydd Iwan Thomas yn derbyn Cwpan Her Dinas ar ran teulu Blaenyresgair.
5. Beirniad adran y cŵn, Neville Thomas, gyda'r pencampwr o eiddo Manon Roberts, Llanwrda a'r ail wobwr i Harvey Bollen, Bryn Villa.

### GŴYL Y DEFAID, LLANYMDDYFRI



Alun Williams, Rhydlydan, Pumsaint yn ennill pencampwriaeth Sioe'r balwen yng Ngŵyl y Defaid. Rhoddwyd a chyflwynwyd y cwpan iddo gan ei frawd Huw Williams, Glynglas.



## Arddangosfa Gelf yn Llanymddyfri

Yn ddiweddar agorwyd Arddangosfa Gelf yng Ngorsaf Reilffordd Llanymddyfri. Trefnwyd yr arddangosfa er cof am y diweddar **Mrs Harriet Davies** a fu'n gymaint o ddylanwad ar nifer o arlunwyr yr ardal.

Daeth nifer fawr o bobol o'r dre a thu hwnt i'r agoriad swyddogol. Y llywydd oedd Glyn Evans ac agorwyd yr arddangosfa gan Huw Davies, mab y diweddar Phillip a Harriet Davies, Llanymddyfri.

Gwelwyd lluniau gan y diweddar Harriet Davies, ynghyd â gwaith gan Marilyn Evans, Ron Madge, Beryl Morgan a Lon Owen. Yn ei anerchiad, cyfeiriodd



*Huw Davies yn cyfarch Glyn Evans*

Huw Davies at safon uchel y lluniau, a rheiny yn gynnrych dyfyrlliw, olew a phastel. Golygfeydd o ardaloedd yn Sir Gâr oedd testun y rhan fwyaf o'r gwaith.

Dros y pythefnos dilynol bu nifer fawr o bobol o bell ac agos yn ymweld â'r arddangosfa, a'r bwriad yw cynnal arddangosfa arall yn ystod y misoedd i ddod.

Dymuna'r arlunwyr ddiolch i Glyn Evans a Chyfeillion yr Orsaf am eu croeso a'u cefnogaeth.



*Glyn Evans, Huw Davies, Beryl Morgan, Marilyn Evans, Lon Owen a Ron Madge.*

*Lluniau: Tom Evans*

Erbyn hyn mae Lon Owen a Marilyn Evans wedi trefnu cynnal arddangosfa arall yng nghaffi Gorsaf Reilffordd Llanymddyfri o 27 Hydref tan 10 Tachwedd. (Ar agor o 10am tan 12pm ac o 2.00pm tan 4.00pm). Bydd ganddynt *prints* a chardiau o'u gweithiau ar werth y tro yma. Croeso cynnes i bawb.

## Ysbyty Gymunedol Llanymddyfri

Cafwyd ffêd flynyddol lwyddiannus iawn eleni a chodwyd y swm o £2,600. Diolch i bawb a fu'n gweithio mor galed i sicrhau llwyddiant. Pleser oedd cael cwmni y Dr Aled Williams o Feddygfa Teilo i agor y ffêd a diolch iddo am ei eiriau pwrpasol a'i rodd haelionus.



*Lyn Richards (cadeirydd) yn diolch i Dr Williams. Hefyd yn bresennol mae'r Cyngorydd Ivor Jackson (Is-gadeirydd) Llinos Davies (ysgrifenyddes) a Sister Dawn Davies sydd bellach yn gyfrifol am yr ysbyty.*



Derbyniwyd swm o £760 oddi wrth Nick Ward Davies a Grant Craik o ganlyniad i ardd agored yn eu cartref yn Alltygog, Llanymddyfri. Cafwyd diwrnod bendigedig mewn gardd arbennig iawn a bu aelodau o bwyllgor Ffrindiau Ysbyty Llanymddyfri yn helpu wrth y tē o dan arweiniad Dilys Morgan a Bronwen Davies. Mae ffrindiau yr ysbyty yn ddiolchgar iawn am eu haelioni. Cyflwynwyd y siec yn y ffêd flynyddol ac yn ei derbyn mae Gordon Jones trysorydd, y cadeirydd a'r is-gadeirydd ynghyd â Dilys Morgan.

*Lluniau: William Theophilus*

## Neuadd bentref pum seren yn enghraifft ddisglair

Er lles y cyhoedd y mae swyddogion diogelwch yn ymweld yn annisgwyl â chanolfannau trwy'r Sir. Pan ymwelodd swyddog o Asiant Iechyd y Gymuned â **Neuadd Llanarthne** dyfarnwyd y radd uchaf pum seren i'r neuadd leol oherwydd y safon uchel yn adran glendid bwyd.

Y mae Judy Roberts, Cadeiryddes Pwyllgor y Neuadd ar ben ei digon wrth i'r Pwyllgor sicrhau'r lefel ucha' o lendid.

Adeiladwyd Neuadd Llanarthne yn 2008 fel canlyniad i waddol Mrs M. E. M. Griffith Jones, Folkestone yn 1940 a Mr a Mrs Evan Davies, Cliftonville, Llanarthne yn ogystal â chyfraniadau gan y Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun glendid, yn bartneriaeth rhwng cyngorau a'r Asiant Safonau Bwyd. Y mae pobman yn Sir Gâr sy'n cyflenwi bwyd i'r cyhoedd wedi derbyn gradd teilyngdod o 1 i 5. Gellir gweld y graddau a ddyfarnwyd ar [www.ratings.food.gov.uk](http://www.ratings.food.gov.uk) <<http://www.ratings.food.gov.uk>>





## BRECHFA



### Stanislawa Czyzewska (1914-2012)

Mae yna bobl yn byw mewn cymunedau sydd heb fod yn frodorion, ond sydd wedi dod yn rhan annatod o'r gymdeithas heb i ni sylwi, weithiau. Un felly oedd **Suava**, fel roedd pobl yn ei hadnabod ym Mrechfa. Bu'n byw yn Llys y Coed am 30 mlynedd, gyda'i gŵr tan iddo farw ychydig yn ôl a'i merch a gollwyd chwe blynedd yn ôl.



Roedd Suava yn aelod gweithgar o'r gymuned, yn wraig ddawnus a gadwai wenyn, roedd yn garddio ac yn wniadwraig. Roedd hi'n aelod o Tapenyddion Teilo adeg Canmlwyddiant Eglwys St Teilo ac roedd ei chlustogau pen-glin hi wedi'u gweu â phatrwm o wenyn ar un ochr a Chariad yw Duw yn yr iaith Bwyleg yr ochr arall. Cawsant eu harddangos ym Mhalas Alexander, Llundain.

Gwraig o wlad Pwyl a oedd wedi profi caledi yn garcharor yn Siberia adeg yr Ail Ryfel Byd oedd Suava. Er mwyn dianc nofiodd yr afon Odessa â'i dillad amdani. Roedd y bore dilynol yn gynnes a buan y sychodd ei dillad ar y llwyni.

Bu angladd Suava, a oedd yn 91 oed, yn Eglwys Gatholig Llandeilo. Gorchuddiwyd yr arch â banner gwlad Pwyl ac fe'i claddwyd gyda'i gŵr a'i merch yn Llanbedr Pont Steffan.

**Iris Lenny**

## CAIO



### Bedydd

Cafwyd gwasanaeth bedydd arbennig yn Eglwys Caio ar 16 Medi. Cyflwynodd Corrie ac Andrew Pitman, Caerdydd eu efeilliaid Fred ac Alfie i'w bedyddio. Wyrion i Mr. a Mrs. Ross Watkins, Maesneuadd. Hefyd cyflwynodd Paul a Kate Lynock, Glasfryn eu merch Esme Lili i'w bedyddio.

### Cyfarchion

Un o'r rhedwyr a gwblhaodd hanner marathon Caerdydd oedd Emyr Richards, Maesglas. Bydd yr arian a gasglwyd ganddo yn mynd i gefnogi gwaith Dr Barnado. Da iawn Emyr - ymdrech arbennig.

Llongyfarchiadau i Manon Johnston, 3 Rock Street am basio gradd 8 yn bale. Dal ati Manon.

Dymuniadau gorau a phob lwc i Rhydian Davies, Awelon sydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Dafydd Jenkins, Fron ym Mhrifysgol Aberystwyth a Sara Mair, Hen Swyddfa Post ym Mhrifysgol Drindod Dewi Sant ac i Laura Goerge, Aweldeg, Cara Ludlow, Arlwyn, Jossie Bennett, 1 Rock Street a Carys Haf, Hen Swyddfa Post am fynd nôl i'r chweched yn Ysgol Gyfun Pantycelyn.

Dymuniadau da a llwyr wellhad i Eirwyn George, Aweldeg a fu mewn damwain yn ddiweddar.



### Marwolaethau

Yn dawel yn ei gwsg hunodd **Mr Aldred James**, Llanfair ym Muallt ar 17 Hydref. Mab oedd i'r diweddar Mr a Mrs Evan James a brawd Peris, Swyddfa'r Post, Caio. Estynnir cydymdeimlad â'r teulu ac â'i chwaer yng nghyfraith Gwenfudd James.

Cydymdeimlir hefyd gyda theulu **Rosemary Davies** (Arlwyn gynt). Bu y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Caio a chladdwyd ei gweddillion ym mynwent yr eglwys.

### Noson Wobrwy

Yn ddiweddar cynhaliwyd Noson Wobrwy yn Ysgol Gyfun Pantycelyn. Llongyfarchiadau i'r canlynol:

Cara Ludlow, Arlwyn - Dyfarniadau Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4.

Imogen Simkins, Pantglas - Dyfarniadau Blwyddyn 8 am Gyrhaeddiad ac Ymdrech.

Manon Johnston, 3 Rock Street - Dyfarniadau Blwyddyn 10 am Ymdrech a Chyfraniad fel Llysgenhades Chwaraeon.

Rhydian Davies, Awelon - Dyfarniad y Prif Fachgen.



Ysgoloriaeth Addysg Grefyddol y Bedyddwyr - Sara Mair, Hen Swyddfa Post. Cafodd ei gwobrwy gan y Parch Lyn Rees, Rhydaman a chyflwynwyd iddi wobwr ariannol.

Carys Haf, Hen Swyddfa Post - Cyfansoddwraig y flwyddyn - Cafodd ei darn ei chwarae mewn noson yn Rhosygilwen yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau iddynt oll.

### Yr Eglwys

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr Eglwys ar ddydd Sul, 14 Hydref gan John Walford, Talylychau. Cynhaliwyd taith gerdded yr eglwys a dymuna'r swyddogion ddiolch i'r cerddwyr am roi o'u hamser ac i bawb a gefnogodd yr achos.

## CAPEL DEWI



### C.Ff.I.

Yn y cyfarfod blynyddol etholwyd swyddogion fel a ganlyn:

Cadeirydd: Jordan Chapman.  
Is-gadeiryddion: Delyth Davies, Simon McCall a Megan Jones.

Ysgrifenyddion: Rhian Davies a Dan Bailey.  
Trysoryddion: Iestyn Owen a Nerys Evans.  
Llywydd: Robin King.

### Priodasau

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r dyfodol i'r canlynol a wnaeth briodi'n ddiweddar: Iwan Davies, Nantyllwyn; Ashley Davis, Bryn a Dôl; Gareth Lewis, Y Wern; Rosie Starke, Abbey Farm ac Arfon Davies, Nantyllwyn.



## Gweithgaredd

Parch Alun Evans, Llanddarog a Llanarthne fu'n sgwrsio ag aelodau bore coffi mis Medi ac Evelyn Evans, Porthyrhyd ym mis Hydref. Trefnir y cinio blynyddol yn Nhafarn yr Hanner Ffordd, Nantgaredig ar ddydd Iau, 29 Tachwedd. Cesglir enwau gan Jean Boughen, (01267) 290370. Croeso i bawb.

Mae nosweithiau bingo wedi ail ddechrau ar ôl egwyl dros yr haf, nos Fercher ola'r mis o 7pm hyd 9pm. Croeso i bawb. Cerdyn yn 50c.

Mae bowlïo mat byr hefyd wedi ail ddechrau ar ôl egwyl. Trefnwyd noson agored i bobl gael gweld yr adnoddau.

## Swper y cynhaeaf

Roedd yr Hen Ysgol yn llawn ar gyfer y swper cynhaeaf blynyddol - noson lwyddiannus arall. Paratowyd gwledd ar gyfer y dorf gan Eileen Cook a'i thîm o gynorthwyr. Meistr y noson oedd Fred Cook ac roedd yntau ac Enid McCall wedi paratoi chwe rownd o gwestiynau ysgafn. Merched C.Ff.I. Capel Dewi fu'n gweini a rhoddwyd gair o ddiolch gan y cadeirydd Arwyn Jones.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir gyda dau deulu lleol ar golli eu hanwyliaid yn dra sydyn yn ddiweddar. Roedd **Mr Derek Goulbourne**, Tanybryn (Fferm Penyglogue gynt) yn briod â Jean ac yn dad i Andrea, Steven, Michael a Cathryn. Roedd **Mr Ben Thomas**, Pantawel, priod Eifiona a thad Keith a Kevin yn hannu o gyffuniau Trelech. Cydymdeimlir â'u teuluoedd.

## CRUGYBAR



### Cyfarchion

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Eirian Davies, Awelon a Mr a Mrs Ieuan Davies, Cwmisaf sydd wedi dathlu eu priodas arian ym mis Hydref.

Bu dau o'r ardal yn treulio cyfnod yn Ysbyty Glangwili y mis hwn eto. Da yw deall bod Emlyn George, Bronygaer a Hefin Williams, Glanrhyd wedi dod adre erbyn hyn. Dymunwn iddynt wellhad buan a llwyr.

Estynnir cydymdeimlad diffuant â Gwyneth Jenkins a'r teulu, Arnant sydd wedi colli ei chwaer **Mrs Glenys Williams** yn frawychus o sydyn.

Croeso i Elliw Lodwig, merch fach gyntaf anedig Ceris a Llŷr Jones ac wyres gyntaf i Helen a Cledwyn Morgan, Llwynfallen.

### Bore coffi Macmillan

Cynhaliwyd bore Coffi Macmillan llwyddiannus yn y Ganolfan ar fore Sadwrn, Medi. Gwnaed elw o £385.20. Diolch am haelioni pawb a gyfrannodd at lwyddiant y bore.

### Capel Crugbybar

Aeth aelodau'r Gymdeithas ar ymweliad â Gwasg Gomer ym mis Medi. Cafwyd noson ddifyr a phryd blasus o fwyd cyn dod adre. Gwaith yr artist Aerwen Griffiths a welwyd yng nghyfarfod mis Hydref. Darnau o gelf hyfryd a diddorol yn dangos nifer o wahanol fathau o dechnegau.

### Swper cynhaeaf

Lyn Richards, Maesglas a fu'n diddanu'r gynulleidfa dda a ddaeth i fwynhau'r swper cynhaeaf a gynhaliwyd yn y Ganolfan ar nos Sadwrn, 13 Hydref. Noson a fwynhawyd yn fawr gan bawb.

## CWM-DU



### Cwrdd Diolchgarwch

Ar nos Iau, 20 Medi cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch Capel Providence Cwm-Du a phleser oedd croesawu'r Parch Stephen Morgan i wasanaethu. Carai'r Parch Mary Davies, gwenidog Providence a'r aelodau ddiolch i bawb am eu cfenogaeth.

## Ymwelwyr

Daeth grŵp o 30 o bobl o bentref Bronwydd i dalu ymweliad â Chwm-du yn ddiweddar. Croesawyd hwy gan Hywel Jones a chawsant bryd o fwyd ysgafn yn Nhafarn Cwm-du.

Aethant ar daith o gwmpas y pentref hynafol gan ymweld â'r siop a'r swyddfa bost lle cawsant fodd i fyw wrth fwynhau'r awyrgylch yno. Dangoswyd iddynt y tai yn Nheras Rhyd - yr - Onnen, festri a chapel Providence y cyfan yn eiddo Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd yn rhan annatod o'r gweithgareddau yn y pentref.

I gloi eu hymweliad arweiniodd Hywel nhw i weld ei ardd lle mae ganddo dros 900 o ddahlïas. Mae Hywel wedi bod yn tyfu ac arddangos dahlïas mewn sioeau ledled Cymru am dros 35 o flynyddoedd a rhyfeddwyd at yr holl liwiau, eu ffurf a'u maint. Tynnwyd llun o'r grŵp ar ddiweddd eu hymweliad er mwyn cofnodi'r achlysur hapus hwn. Diolch i Pat Bezzard am baratoi a gweini'r bwyd ac i Celia Parsons am weini yn y siop.

### Beiciau Modur

Trefnwyd sioe o feiciau modur yng Nghwm-du eleni eto gan Pete Bond i godi arian ar gyfer elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Bu'r sioe a gynhaliwyd llynedd mor llwyddiannus fer y penderfynwyd ei chynnal eleni eto. Roed gweld yr holl feiciau modur yng Nghwm-du yn wledd i'r llygaid, tua chant ohonynt o bob math a gweuthuriad. Cynhaliwyd y sioe o 11am tan 4pm a chafwyd cyngerdd amrywiol yn yr hwyr gyda Chôr Meibion Dinefwr ynghyd â grwpiau roc yn y babell fawr. Carai Peter Bond a'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth unwaith yn rhagor tuag at yr elusen hon.

### Cyngerdd Gwerin

Mae'r grŵp gwerin yn cyfarfod yn fisol ers rhai blynyddoedd yn Nhafarn Cwm-du ac yn ystod mis Medi trefnodd Peter Mitchell gyngerdd arbennig yn y pentref gyda cherddorion blaenllaw yn cymryd rhan. Pleser oedd croesawu'r delynores enwog Delyth Jenkins (ynghyd â cherddorion eraill) i ddiddanu'r gynulleidfa. Mae merch Delyth, Angharad Jenkins yn canu gyda'r grŵp gwerin Calan. Yn yr hwyr mwynhawyd twmpath dawns hwyliog. Gobeithir cynnal diwrnod cyffelyb y flwyddyn nesaf eto gyda rhagor o gerddorion Cymraeg yn cymryd rhan. Mae CD o gerddoriaeth Delyth Jenkins ar werth yn y siop yng Nghwm-du.

### Taith i Blackpool

Trefnwyd pedwar diwrnod o wyliau gan Hywel Jones i Blackpool ar 7 Hydref a chafwyd cefnogaeth gan drigolion y pentref a'r ardal. Yn ystod eu hymweliad gwelsant y goleuadau ac aethant ar daith i Southport ac ardal y llynoedd. Roedd adloniant bob nos yn y gwesty a digon o amrywiaeth yn ystod yr arhosiad yno. Diolch i Hywel am y trefniadau trylwyr unwaith eto.

### Y Diwrnod Afalau

Er bod afalau'n brin mewn rhai gerddi roedd digon i'w cael yn lleol i gynnal Diwrnod Afalau eleni eto. Cynhaliwyd y gweithgareddau ar brynghawn Sadwrn ar ddechrau mis Hydref a chafwyd prynhawn braf unwaith yn rhagor.

## CWMIFOR



### Ar y llwyfan

Llongyfarchiadau i Martha Harris, Bryngolau am ennill yn Eisteddfod Llanwrtyd yn ddiweddar. Dyfarnwyd y wobr gyntaf iddi yn yr Unawd 9-12 oed gan y beirniad Gwawr Owen, arweinyddes Côr Caerdydd. Dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol.



## CWRT Y CADNO



## Capel Cwrt-y-cadno

Y Parch Stiffyn Morgan oedd yng ngofal y gwasanaeth diolchgarwch a da oedd gweld cymaint yn mynychu y cyfarfod ar nos Sul, 14 Hydref.

Dymuniadau gorau i Hefin Williams, trysorydd y capel am wellhad llwyr a buan.

## Cymdeithas y Capel

Dyma raglen tymor y gaeaf 2012-2013. Croeso i unrhyw un o'r tu allan i'r ardal ymuno â'r gymdeithas sy'n cyfarfod ar nos Fawrth.

23 Hydref – Noswaith yng ngofal Gwennan Evans.

6 Tachwedd – Anika Batkin a Kath Lovatt, sleidiau a hanes taith i Nepal.

20 Tachwedd – Huw Davies, cwrs ar arddangosfa hen greiriau.

4 Rhagfyr – Alun Jones, hanes a sleidiau o waith Nantmwyn.

18 Rhagfyr – Parti Nadolig.

1 Ionawr – Cwrdd dechrau'r flwyddyn yng ngofal Doris Davies.

15 Ionawr – Ymweliad ag Efail y Gôf, Ffarmers.

29 Ionawr – Noswaith yng ngofal John Mercer.

5 Chwefror – Cinio blynyddol.

## Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Ronald a Phyllis Jones, Felin Abermangoed sydd wedi symud i Lanaman.

## Cydyndeimlad

Blin oedd clywed am farwolaeth **Gwynfor Jones**, Glasfryn, Llansawel. Cafodd ei godi a'i fagu yn Aberbranddu, Cwrt-y-Cadno. Estynnir cydyndeimlad i'r teulu oll.

## DRYSLWYN



## Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Elwyn Thomas, Maes-y-meillion ar ddathlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed ar 25 Hydref. Dymunir y gorau iddo ac yntau wedi dioddef tostrwydd ers rhai misoedd.

## Noson Siopa

Mae cyfeillion Cylch Meithrin a Ti a Fi Cwrt Henri yn cynnal noson siopa yn nhafarn New Cross, Dryslwyn ar nos Wener, 7 Rhagfyr am 7pm. Mynediad: £3 yn cynnwys gŵn poeth a mins peis. Ceir llawer o stondinau a siopau, llechi Cymraeg, Eves's Toy Shop, Igam Ogam, gemwaith, canhwylau persawrus, bwyd lleol, cardiau tymhorol, arddangosfeydd colur a llawer mwy. Dewch am noson gmdethasol ac ymlaciwch ymhlith ffrindiau, bydd y trefnwyr yn falch o'ch gweld.

## FFAIR-FACH



## Cyfarchion

Dydd Sadwrn, 20 Hydref, braf oedd cael priodas yng nghapel y Tabernacl rhwng Frances Griffiths a Deryl Jones o Geredigion. Mae Frances yn ferch i Peter a Mary ac yn wyres i'r diweddar Betty Davies, Wenllys (Pentre Parr gynt). Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddynt.

Braf oedd clywed bod Nerys Mainwaring merch Eric a Delyth o Landybie wedi dyweddio â Tom Stephens o Bontarddulais. Pob dymuniad da i'r ddau.

Dymunwn yn dda i'r Parch Iwan V Evans yn ei ofalaeth yng Nghapel Philadelphia, Nantycaws ac edrychwn ymlaen at wneud cyfeillion newydd rhwng y ddwy Eglwys.

## Cydyndeimlad

Cydyndeimlwn â Dilys Griffiths a'r teulu ar golli ei chefnither **Miss Glenys Michael** o Rydaman a oedd hefyd yn aelod yn y Tabernacl.

## Cymdeithas y Tabernacl

Cafwyd noson agoriadol ar nos Lun, 5 Hydref - Swper a chymdeithas yng nghwmni Meinir Jones a Ffion Jones gydag Elin Rees wrth yr offeryn. Diolch iddynt am eu canu swynol.

## FFARMERS



## Neuadd Bro Fana

Mae Cyngor y Neuadd bellach wrthi yn trefnu cyfres o weithgareddau ar gyfer misoedd y gaeaf, gan gychwyn ar 10 Tachwedd gyda bore coffi yn y neuadd rhwng 10am a 12pm. Y Llywydd fydd Mairwen Davies, Y Felin, Llansawel. Bydd yna amrywiaeth o stondinau ynghyd â raffl.

Y nos Lun ganlynol, sef 12 Tachwedd, byddwn yn croesawu Richard Rees o Lanwrda i roi hanes cynllun gan Gyngor Sir Llundain i 'ddwyn' yr Afon Tywi. Mae Richard wedi ymchwilio yn fanwl i gefndir y cynllun na gafodd, yn y diwedd, ei weithredu. Mae hwn yn hanes hynod ddiddorol, ac edrychwn ymlaen yn fawr i glywed cyflwyniad Richard.

Ar 23 Rhagfyr, cynhelir ein cyngerdd a noson o garolau arferol yng nghwmni parti bechgyn *Ar Wasgar*. Fel arfer, cawn gymorth yr Eglwys a'r capeli lleol, a chyflwynir elw y noson i achos da.

Bydd Côr Meibion De Cymru yn ymuno â ni am gyngerdd mawreddog ar 20 Ebrill 2013, gyda'r artistiaid Ina Morgan yn canu, a Georgina Cornock Evans yn chwarae'r delyn. Edrychwn ymlaen i'w croesawu i'r Neuadd.

## GWERNOGLE



## Bedydd

Ar ddydd Sul, 30 Medi cafodd Einir Mari George merch Adrian a Catrin George a chwaer fach Tudur ei bedyddio yng nghapel Gwernogle. Wyres yw i Eric a Dilys Jones, Tirlan ac Arwyn a Margaret George, Coedlannau Fawr.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch Rheinallt Davies, Pencader. Braf oedd gweld yr holl blant yn bresennol yn yr oedfa.



## LLANARTHNE



## Pwyllgor y neuadd

Bydd y Pwyllgor yn trefnu dau ddigwyddiad ar nos Wener 9 Tachwedd a dydd Sadwrn 10 Tachwedd.

Noson Tân Gwyllt, gyda choelcerth a chystadleuaeth Guto Fowc fydd yn dechrau'r penwythnos am 6.30pm. Pris mynediad yw £3 y pen gyda llond car am £10. Croeso cynnes i bawb ac mae'r noson yn cael ei threfnu ar y cyd gyda C.Ff.I. Llanarthne.

Yn dilyn ar ddydd Sadwrn, bydd Ffair Nadolig rhwng 10am a 3.30pm. Mae amryw o stondinau wedi cael eu cadarnhau yn barod, sef gemwaith, bagiau, cardiau, lluniau a phrintiau gan wahanol arlunwyr, coginio o bob math, gwaith llaw a phlanhigion. Mynediad am ddim ond bydd raffl er lles Elusen Ymchwil y Galon.

## Carolau o amgylch y goeden

Bydd y noson fendithiol yma yn cael ei chynnal ar nos Wener, 7 Rhagfyr yn y Neuadd i ddechrau am 7pm gyda'r Cyngorydd Huw Bryer, Cadeirydd y Cyngor Bro yn goleuo'r goeden. Gwneir casgliad er budd Ymchwil y Galon.



## LLANDEILO



### Clwb Cinio Cymraeg

Gyda thymor newydd y Clwb Cinio yn dechrau nos Iau, 27 Medi cafodd yr aelodau a oedd wedi ymgasglu yn yr Hydd Gwyn, Llandeilo noson hwylus a diddorol yng nghwmni ein siaradwr gwadd, y darlledwr Aled Samuel.

Cawsom ein croesawu gan y cadeirydd newydd Eifion Bowen, pennaeth cynllunio Cyngor Sir Gâr. Croesawodd Eifion nifer o aelodau newydd i'r clwb sydd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Hyfryd oedd gweld Martin Jones, ein Trysorydd ar ôl tostrwydd difrifol.

Cafodd Aled Samuel ei eni yn Cwm Afan ger Port Talbot cyn treulio nifer o flynyddoedd ym Mangor. Bellach mae Aled, sydd yn wyneb ac yn llais cyfarwydd ar y teledu a'r radio, yn byw gyda'i wraig, yr actores Rhian Morgan a'u dau fab Ifan a Mabon yn Llandeilo.

Testun ei araith oedd y gair 'Diffeithwch'. Disgrifiodd Aled ddau ddiffeithwch, un yn Ethiopia ar llall yn Awstralia.

Gwlad hollol Gristnogol yw Ethiopia yng nghanol gwledydd Islamaidd Dwyrain Affrica. Gwlad gymharol dlawd gyda hinsawdd cras a llym sydd wedi peri i ran fwyaf o'r tir fod yn ddiffeithwch, o bridd cras. Mae'r afon hiraf yn y byd y Nile neu y Blue Nile yn rhedeg allan o Ethiopia i mewn i Sudan i ymuno gyda'r White Nile cyn llifo dros argae yr Aswan, yn yr Aiffet ac i mewn i fôr y Canoldir.

Mae yr ail ddiffeithwch yn Awstralia, diffeithwch o dywod. Mae'r rhan helaeth o'r wlad enfawr hon yn anialwch diffaith. Mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn byw yn Nwyrain a De Dwyrain y wlad, y rhan arfordirol o Queensland, New South Wales a Victoria. Mae yno ffermydd anferth yn cadw miloedd o ddefaid a gwartheg yn rhannau ffrwythlon y wlad. Un peth diddorol iawn ac yn syndod i ni gyd, oedd bod yna ddigon o ddwr glân i lawr yn isel o dan y ddaear yng nghanol Awstralia. Yma mae nifer o'r Aborigines, brodorion y wlad yn byw hyd heddiw. Fe atebodd Aled nifer o gwestiynau i orffen cinio llwyddiannus dros ben.



Llun: Cliff Price

Diolchwyd i Aled gan y cadeirydd, ac fe gyflwynodd iddo ddarlun o dreialon Cŵn Defaid y Byd 2008 a gynhaliwyd gerllaw Tŷ Drennewydd, Llandeilo.

### Ffair Grefftau

Ar 10 Tachwedd cynhelir Cwrdd y Crefftwyr sef Ffair Grefftau Flynyddol *Crafts Alive* yn Neuadd Ddinesig Llandeilo, 9am-5pm. Mynediad am ddim. Celf a Chrefftau o ansawdd uchel, cerddoriaeth, arddangoswyr crefftau a bwyd iachus. Croeso cynnes i bawb.

### Urdd Sant Ioan, Llandeilo

Mae Urdd Sant Ioan, Llandeilo yn chwilio am wirfoddolwyr i ymuno â nhw. Cysylltwch â Simon Martin (01269) 843043 am ragor o wybodaeth. Os na cheir rhagor o aelodau yna fe fydd y gangen yn cau ac yn uno gyda changen Rhydaman.

### Capel Newydd

Bu'r misoedd diwethaf yn rhai prysur yn y Capel Newydd gyda sawl gweithgaredd yn digwydd. Yn ystod yr haf cynhaliwyd trip blynyddol y Capel i Lamedd gydag oedfa dan arweiniad y Parch Edward Griffiths a chinio blasus yn y Brifysgol i ddilyn. Yn ddiweddarach aeth dros 60 o blant a'u rhieni ar drip yr Ysgol Sul i Saundersfoot a chafwyd diwrnod i'w gofio ar y traeth.

Cynhaliwyd oedfaon cyson ar y Sul, yn cynnwys oedfaon aelodau a'r plant ac oedfa arbennig ym mis Awst pan ddaeth criw o gapeli ardal Crymych i ymuno â ni. Bu oedfa ddiolchgarwch y plant a'r bobl ifanc ar 21 Hydref yn llwyddiant mawr gyda thros 120 yn bresennol yn cynnwys rhyw 40 o blant. Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned yn y Festri i ddilyn a braf oedd gweld llawr y capel yn gysurus lawn. Aeth y plant hefyd i ddigwyddiadau chwaraeon a Bwrlwm Bro MIC a chefnogwyd y Gymanfa Gydenwadol yn Ebeneser ddiwedd mis Medi.

Derbyniwyd tri aelod newydd yn ystod y cyfnod gan y Parch Edward Griffiths, sef Helen Howard, Heledd Cynwal ac Ian Rees a byddwn yn derbyn rhagor o aelodau eto cyn y Nadolig. Bydd hyn yn rhoi cyfanswm o ryw 20 aelod newydd dros y deunaw mis diwethaf a braf yw gweld y twf hwn.

Ar hyn o bryd rydym yn ffodus i fod yn cydweithio gyda Choleg yr Annibynwyr Cymraeg i roi cyfnod o brofiad yn y weinidogaeth i Mr Guto Llywelyn, sy'n dod i ddiwedd ei gyfnod yn y Coleg. Mae eisoes wedi cynnal sawl oedfa gyda ni a bydd yn parhau i wneud hyn dros y misoedd nesaf yn ogystal â gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc. Cynhelir ein hoedfaon yn wythnosol a'r ysgol Sul (adeg tymor yr ysgol) am 10.30am ac mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni.

### Cwmni'r Cudyll Coch, Llandeilo

Ydych chi am gyfle i ddiddanu'r gymuned gan fwynhau a chwerthin wrth ddysgu a pherfformio dramau ysgafn? Mae Cwmni'r Cudyll Coch, Cwmni Drama Cymraeg Llandeilo a'r Cylch, yn chwilio am waed newydd, unrhyw oedran i helpu tu ôl i'r llwyfan yn ogystal ag ar y llwyfan. Dewch i ynuno â chriw cartrefol a chyfeillgar sy'n cwrdd yn wythnosol yn yr Angel, Llandeilo. Os am ragor o fanylion cysylltwch ag Eleri 07890 66 7979 neu Bethan 07934 53 7211.

### C.Ff.I. Llandeilo yn dathlu 70 mlynedd

Cynhaliwyd Cinio Dathlu 70 mlynedd o Glwb Ffermwyr Ifanc Llandeilo yn Yr Aradr, Rhosmaen ar 13 Hydref. Daeth nifer fawr o aelodau presennol, cyn-aelodau, swyddogion Sir a ffrindiau i ymuno yn y dathlu.

Croesawyd pawb gan gadeirydd y clwb Anwen Jones a roddodd hanes y clwb, o'r dechrau i'r presennol. Un stori oedd sut y cynhaliwyd rali 1949 yn Llandeilo trwy garedigrwydd Llewelyn Thomas, Fferm Brynwgan. Cofir am y rali hon, oherwydd i hwrrdd ddianc o'i ffald a rhedeg yn syth i gyfeiriad gwraig y llywydd, ond ar wahân i ddioddef o sioc, nid oedd Mrs H. Jones-Davies fawr gwaeth. Esboniodd sut yr arferai C.Ff.I. Llandeilo gynnal eu cyfarfodydd mewn ystafell gefn ger stablau tafarndy'r *Railway* ond pan ddaeth adeilad yr Ysgol Sul yn Ffair-fach ar werth llwyddwyd i godi £250 i'w brynu. Wedi adnewyddu'r adeilad, cyn-gadeirydd y Sir, W.C. Gale a gafodd yr anrhydedd o agor y cartref cyntaf i unrhyw glwb yn y Sir ei sicrhau. Mae'r neuadd bellach wedi ei hail-adnewyddu gyda chymorth grant. Atgoffwyd aelodau'r clwb iddynt fod yn fuddugoliaethus yn y gorffennol gan gynnwys cystadleuaeth siarad cyhoeddus gyntaf Sir Gaerfyrddin. Bu'n rhaid teithio i Goleg Hyfforddi Exeter a chystadlu yn enw Cymru. Aelodau'r tîm hwnnw oedd Brychan Prydderch, C.Ff.I. Llandeilo, Bethan Richards, C.Ff.I. Cil-y-cwm a Tom Williams, Tŷ Gwyn, C.Ff.I. Llandeilo. Ar ddiwedd y chwedegau dychwelodd Tlws Coffa R.L. Jones i'r Sir yn nwylo Arwyn Davies, Capel Tydist o G.Ff.I. Llandeilo. Soniodd fod sawl tywysoges neu lysgenhades Sir wedi dod o Glwb Llandeilo ac ym 1972 Tywysoges Llaeth De Cymru oedd Margaret Morris, C.Ff.I. Llandeilo, sef Margaret Llewellyn, Castell Carreg Cennen.



Ar ran y clwb diolchodd Anwen i Llio Silyn Davies am rodd o ffrâm lechen i ddathlu'r achlysur.

Croesawyd y siaradwr gwadd sef Joseph Davies, Cwmifor. Bellach yn gynghorydd Sir, mae Joseph yn gyn-aelod o'r clwb ac yn gyn-gadeirydd Sir. Esboniodd sut yr oedd ef wedi elwa o fod yn aelod o'r clwb ac o fudiad y Ffermwyr Ifanc. Diolchodd i Emrys Bowen, un o gyn-arweinyddion y clwb a wnaeth ei gynorthwyo mewn ymarferion ar gyfer siarad cyhoeddus a nifer o gystadlaethau eraill.

Soniodd am ei gyfnod fel Cadeirydd C.Ff.I. Sir Gaerfyrddin yn 1977, a'r dasg gyntaf o ddod o hyd i drefnydd newydd. Rhoddwyd y swydd i Margaret Bassett, ond o fewn chwe mis gadawodd y swydd. Y trefnydd newydd oedd Eirios Russell neu Eirios Thomas erbyn hyn, trefnydd presennol y sir.

Hefyd yn bresennol yn y cinio roedd Rhian Howells Jones, cadeirydd presennol y Sir. Dymunodd hithau'n dda i'r clwb, ac i Arwel Jones, Pantyrefail, aelod o Glwb Llandeilo a fydd yn camu i'r swydd ym mis Tachwedd.

Bu Eirios Thomas, trefnydd y Sir yn siarad hefyd. Y gwsteion eraill oedd Arwyn Davies, Llywydd y Clwb a Steffan Evans, cyn gadeirydd Fforwm Ieuencid Cymru, ac aelod o glwb Llandeilo. Dymunodd y ddau ohonynt yn dda i'r clwb gan sôn pa mor ffodus maent wedi bod o gael bod yn aelod o'r clwb. Fe wnaethant ddwyn i gôf sawl profiad pleserus iddynt.

Diolchwyd yn fawr i'r gwsteion am eu geiriau caredig, ac i bob un a fynychodd y noson. Diolchwyd hefyd i Lisa Williams am greu cacen hyfryd i ddathlu'r digwyddiad.

Fe fydd y dathliadau'n parhau gyda Chyngerdd Dathlu ar 16 Tachwedd yng Nghapel Newydd, Llandeilo am 7.30pm. Artistiaid y noson fydd Trebor Edwards, Côr Sain Teilo ac aelodau C.Ff.I. Llandeilo. Mae'r tocynnau ar gael oddi wrth aelodau'r clwb neu Siop Igam Ogam, Llandeilo am £5.



Anwen Jones, Cadeirydd C.Ff.I. Llandeilo ac Arwyn Davies, Llywydd y Clwb yn torri'r gacen.


## LLANDYFAN



Cafwyd dau wasanaeth priodas hardd a hyfryd dros ben yng nghapel Soar, Llandyfan ym mis Medi.



Andrew Thomas, mab ieuengaf Wyn a Pat Hengrofft, Trap â Siân Semmens o Gaerdydd. Cafwyd y neithior yng ngwesty'r Plough, Rhosmaen.



Cerys Llewelyn, unig ferch Pat a Howard, Hendy, Llandyfan a Mark Price, Cwmhendy gyda'r neithior yng ngwesty'r Diplomat, Llanelli.

Dymuniadau gorau i'r ddau bâr ifanc.

### Capel Soar

Llongyfarchiadau mawr i Aled a Marie Thomas ar enedigaeth eu cyntaf anedig, mab bach a'i enw yw Joshua. Ef yw ŵyr cyntaf Gerwyn a Iris Thomas, Hafan Glyd a nai i Alun. Dymuniadau gorau i'r teulu cyfan.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer mis Tachwedd:

- 4 - Cymundeb yng ngofal y gweinidog am 2pm.
- 11 - Oedfa ddwyieithog yng ngofal y gweinidog am 2pm gyda the i ddilyn yr oedfa.
- 18 - Y Parch Carl Williams am 2.30pm.
- 25 - Y Parch Heini Jones am 2pm.

## LLANFYNYDD



### Mr Arwyn Lewis

Yn dilyn brwydr ddewr yn erbyn afiechyd blin bu farw **Mr William Arwyn Lewis**, Fferm Gymrig, Llanfynydd yn dawl ar 1 Hydref yn 55 mlwydd oed.

Priod hoff ydoedd i Bernadette, tad cariadus Megan, mab annwyl Tudor a'r diweddar Ethel Lewis, brawd ffyddlon Eirian ac Enfys, brawd-yng-nghyfraith hoffus Jill a Gary ac ewythr parchus Tomos, Lowri ac Owain. Gweithiodd yn ddiwyd a chyson ers yn ŵr ifanc i Adran y Ffyrdd, Cyngor Sir Gaerfyrddin, ond roedd wrth ei fodd ar y fferm lle medrai droi ei law at amrywiol orchwylion.

Ar brynawn Sadwrn, 6 Hydref daeth tyrfa enfawr ynghyd i dalu'r gymwynas olaf yn yr angladd gyhoeddus. Dan ofal y Parch Ian Sims cafwyd gwasanaeth yng Nghapel M.C. Llanfynydd cyn gosod ei weddillion i orffwys ym mynwent y capel. Cydymdeimlir gyda'r teulu cyfan yn eu colled enbyd a'u hiraeth.

*Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a redais yr yrfa, mi a gedwais y ffydd.*

### Llwyddiant Dewi

Llongyfarchiadau gwresog i Dewi Griffiths, Pantydderwen, Llanfynydd ar ei orchest ddiweddaraf sef y Cymro cyntaf i gyrraedd y llinell derfyn ym Marathon Caerdydd a gynhaliwyd yn y brifddinas ar 14 Hydref. Ynghyd â gwobr ariannol fe fydd Dewi yn derbyn trip i dderbyn hyfforddiant arbenigol mewn camp yn Colorado trwy haelioni Steve Jones. Mae Dewi, sydd ar ei flwyddyn olaf ym Mhrifysgol Abertawe yn astudio mathemateg, yn aelod brwdfrydig a llwyddiannus o *Swansea Harriers*.

**Mr Howard Hughes**

Yn ddisyfyd ar 5 Medi bu farw **Mr Howard John Hughes**, Meadow View ac yntau'n 63 mlwydd oed. Priod cariadus i Megan a thad teyrngar Gareth a Richard. Yn wreiddiol o Fro Ogwr, treuliodd yrfa faith gydag Awdurdod Heddlu De Cymru lle roedd yn uchel iawn ei barch. Er taw prin oedd ei gyfnod yn Llanfynydd, fe ymdoddodd yn llwyr i holl fywyd yr ardal, i Bwyllgor y Sioe, Cyngor Cymdeithas Llanfynydd a Chymdeithas Lês y pentref. Gwelir ei eisiau'n fawr gan ei deulu annwyl, gan Awdurdod yr Heddlu a gan yr holl bentrefwyr. Roedd nifer o'r ardal yn rhan o'r gynulleidfa fawr yn yr angladd yn Amlogfa Coity ar 25 Medi.

Cydymdeimlir yn ddwys gyda Megan a'r bechgyn.

*A garwyd mewn bywyd, a drysorir mewn côf.*

**LLANGADOG****Llwyddiant Rhodri**

Profodd **Rhodri Jones**, ugain oed o Waundyrfa, Llangadog ei fedrusrwydd mewn sgiliau peirianeg yn ddiweddar. Bu Rhodri'n fuddugol mewn cystadleuaeth dros Gymru a'r De Orllewin a brofai ei sgiliau yn dylunio a chreu'r rhan gyntaf o graen bychan ynghyd â sgiliau torri a ffurfio. Cyflogir Rhodri gan Gwmni Dylunio a chynllunio McCann, Llanymddyfri.

**Cyfarfodydd Diolchgarwch.**

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch Capel Providence ar ddydd Llun, 1 Hydref. Cynhaliwyd Oedfa Weddi yn y bore a chymerwyd rhan gan y gweinidog, y Parch Euros Jones Evans, Beti Davies, Marjorie Hughes, Rhian Morgan, Nancy Davies a Wyn Williams. Llywyddwyd oedfa'r hwyr gan y gweinidog a chafwyd neges gofiadwy a lliwgar gan y Parch K M Lintern, a oedd yn dathlu'r achlysur iddo gael ei ordeinio fel gweinidog 50 mlynedd yn ôl. Diolchwyd yn gynnes iddo gan y llywydd. Ydwena Davies fu'n gwasanaethu fel organyddes yn y ddwy oedfa.



*Rhodri Jones a fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth Byd Sgiliau Prydain.*

**LLANSADWRN****Priodas Ddiemwnt**

Mae Emlyn ac Ollie George, Brongar, Llansadwrn yn dathlu eu priodas ddiemwnt ar 9 Rhagfyr.

Llongyfarchiadau a llawer o gariad oddi wrth y plant, yr ŵyrion a'r gor-ŵyrion.

**LLANSAWEL****Sioe Llansawel**

Bu'r sioe eleni yn ffodus o gael diwrnod braf iawn gyda dwy adran newydd sef asynnod a dofednod, â'r cystadlu yn frwd ymysg adrannau'r cae fel yn y neuadd gyfagos.

Llywydd y dydd oedd Iwan Thomas, 3 Teras yr Eglwys, Cafwyd ganddo araith bwrpasol, a rhodd hael tuag at gronfa'r sioe. Mae Iwan wedi bod yn gefnogol ers y sioe gyntaf. Yn bresennol hefyd roedd yr is lywydd Cliff a Myfanwy Davies, Cwm - Mackwith, Llanfihangel - ar - Arth.

Dymuna aelodau'r pwyllgor ddiolch i Mr a Mrs David Lloyd Davies a Mr a Mrs Dale Hudson, Castle Green am fenthylg y caeau, ac i bawb sydd mor gefnogol i lwyddiant parhaol y sioe.

Yn ystod y prynhawn cafodd llawer o'r ymwelwyr y cyfle unigryw i gael eu llun wedi ei dynnu gyda Carwen Richards o Pumsaint â'r *Olympic Torch* am £1 gyda'r arian yn mynd tuag at elusen o'i dewis hi sef Ambiwlans Awyr Cymru.

**Prif enillwyr****Adran y Defaid**

Defaid Penrith - Brodyr Jones, Pantybryn, Hafod y Bridge. Defaid Ucheldir - Wyn a Siwan Harries, Hope, Llandeilo. Defaid Cyfandirol - Siôn a Clare Williams, Beili Ficer, Llansawel. Defaid heb fod yn frîd cyfandirol - D T Thomas, Blaennantygarn, Abergorlech.

Defaid Brid Croes - Wyn a Siwan Harries, Hope.

Cwpan Her Oen Tew Gorau - Glyn Davies, Cothi Vale, Crugbybar. Cwpan Her Dinas - Teulu Blaenyresgair, Llansawel.

Pencampwyr adran y defaid

Cwpan Her - Joshua a Noeline Jones a Teulu Williams, Beili Ficer. 4 Dafad unrhyw frîd - D T Thomas.

Pencampwyr Defaid Gorau'r Sioe

Tancard - Amaeth Lloyds TSB Caerfyrddin a Thaleb Agri Lloyds - Teulu Harries, Hope.

**Adran y cŵn**

Pencampwyr - Manon Roberts.

Cilwobr - Harvey Bollen, Bryn Villa, Llanwrda.

**Adran Ceffylau**

Pencampwr - Roseashe Gandalf gyda Elander.

Cilwobr - Yvonne Chalice gyda Howard.

**Adran y Neuadd****Garddwriaeth**

Cwpan a tharian Her W J Miles - Eiryl Davies, Siloh.

**Blodau**

Cwpan - Eiryl Davies.

Tarian Her Tom Welsh - May Griffiths, Plas newydd, Talylychau. Tarian y Llew Du a chwpan Delfryn.

Am fasedg grog a thwba blodau gorau - Brenda a Denzil Williams, Awel-deg.

**Nwyddau Cadw**

Cwpan - Eiryl Davies

Rhuban glas a Rosebowl - Doreen Martin, Y Ddôl.

**Coginio**

Cwpan - Sheila Speake, Tŷ'n y cwm, Llansawel.

Tarian Her Awel Deg - Iris Williams, Hafod, Crugbybar.

Gwobr rysait y beiriniad - Katherine Davies, Parc y Rhos, Llansawel.

**Gwaith Llaw**

Cwpan - Doreen Sisto, Esgair Villa, Abergorlech.

Tarian Her Mrs Wynne - Lowri Davies, Esgairliving, Rhydcymerau.

**Ffotograffiaeth a Chelf**

Cwpan - Doreen Martin.

Ruban Glas - Mary Williams, Talylychau.



### Adran y Plant

Adran 12-16

Cwpan – Non Roberts, Rhoseinion, Talylychau.

Rhuban glas – Arwel Davies, Esgaigynddu.

Plant 8 – 11

Cwpan – Lisa Lewis, Cefn Coedmawr, Pumsaint.

Rhuban glas – Siôn Davies, Esgaigynddu.

Plant 7 a Iau

Cwpan a Ruban Glas – Gwyn James, Felingwm Uchaf.

Ysgol Llansawel

Adran Iau – Rio Vitra.

Adran Babanod - cydradd cyntaf Sophie a Lous Oubridge a James Darbyshire.

Cylch Meithrin - Bryn Pritchard.

### Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Bryn Davies, Acheth Isaf ar ddatlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed ym mis Medi. Dymuniadau gorau am iechyd ac hapusrwydd yn y dyfodol.

### Gymanfa Dyffryn Cothi

Cynhaliwyd y gymanfa ar brynhawn Sul, 7 Hydref yng Nghapel Bethel gyda'r canu o dan arweiniad Ann Thomas, Pontynyswen gyda Jean Evans, Pumsaint wrth yr organ. Dechreuwyd yr oedfa gan Lisa Lewis a Siôn Davies o Ysgol Sul Crugybar. Llywyddwyd gan Beti Davies, Bethel gyda phlant Ysgol Sul Rhydybont yn adrodd emynau adran y plant. Cafwyd oedfa fendithiol a chanu da a bywiog. Mynegwyd y diolch gan Elfyn Davies, Bethel Cwmpedol gan ddymuno'n dda i'r Parch Huw Roberts am wellhad buan iawn. Cyflwynwyd arian y casgliad i Apêl Plant Sir Gâr, Ysbyty Glangwili.


## LLANWRTYD



### Eisteddfod lwyddiannus

Cynhaliwyd Eisteddfod Llanwrtyd eleni ar 22 Medi ac mae'n siŵr i chi ddarllen yr adroddiad a ymddangosodd yn rhifyn Hydref o'r Lloffwr.

Diolch i'r holl gystadleuwyr a gefnogodd yr Eisteddfod a diddorol yw nodi fod nifer helaeth o'r enillwyr yn byw ym Mro Dinefwr.



Philip Watkins, Llanymddyfri – enillydd yr Her Unawd.



Gaenor Morris-Watkins, Llanymddyfri – enillydd y 'Stori Fer'.



Parch Beti Wyn James, Caerfyrddin- Bardd y Gadair (chwith).

John Smith, Llandybie-enillydd yr Unawd 13-18, enillydd yr Unawd Offerynnol, enillydd yr Unawd allan o Sioe Gerdd ac enillydd y Cwpan am y cystadleuydd mwyaf cerddorol yn y prynhawn (isod).



Owain Siôn Gruffydd, arweinydd Côr Sainteilo sef y côr buddugol yn yr hwyr. Owain enillodd y wobwr am yr arweinydd gorau hefyd a dyma lun ohono yn dal y cwpan a'r baton (chwith).



## LLANYMDDYFRI



### Clwb Gwawr Llanymddyfri

Y mis hwn cawsom gwmni Martha Williams o'r siop flodau The Flower Pots o dref Llanymddyfri. Dangosodd sut oedd gwneud trefniant blodau bychan i'w wisgo ar ddilledyn neu fag gogyfer â phriodas neu achlysur arbennig. Ar y diwedd aeth Martha o amgylch gan edrych yn fanwl ar ymdrechion pawb!

Dyfarnwyd mai Nan Morse oedd â'r trefniant gorau. Llongyfarchiadau i Nan. Ar ôl taci o cawsom wledd o ddanteithion cartref a sgwrs felys fel arfer.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Myddfai yng Nghwmni Mererid Price.



Nan Morse â Martha Williams o'r siop flodau yn Llanymddyfri.



## Merched y Wawr Pantycelyn

Cynhelir cyfarfod nesa'r gangen ar nos Fercher, Tachwedd 14 yn Neuadd Dolau Bran am 7pm. Gobeithiwn groesawu Dafydd Evans o Langadog i'n plith fel ein gŵr gwâdd am y noson. Bydd yn sôn am broblemau sy'n gysylltiedig â'r ymennydd a chlefyd *Alzheimers* ac ati ac edrychwn ymlaen yn fawr i'w glywed yn siarad am destun y mae sôn cymaint amdano ar hyn o bryd. Croeso cynnes iawn i bawb ac yn enwedig i unrhyw un sydd â diddordeb ymuno â'r gangen am y tro cyntaf. Cysylltwch â Bethan Richards ar (01550) 721635 neu Evelyn Davies ar (01550) 720368 am ragor o wybodaeth.

## YMCA Llanymddyfri

Mae'r YMCA yn fan cynnal i'r gymuned gyfan yn Llanymddyfri. Yn 2011 roedd mwy na hanner y boblogaeth wedi defnyddio'r adeilad rywbryd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Ganolfan wedi elwa ar ddau o gynlluniau gan Gynllun Datblygu Gwledig Sir Gaerfyrddin (RDP Sir Gâr), a chyn bo hir bydd yn cynnwys gweithdai gwaith coed ac atgyweirio beiciau. Llwyddwyd i gyllido gwerth £5,500 o offer TG ar gyfer y Clwb Gwaith. Bydd yna gegin newydd lle caiff cyrsiau Hylendid Bwyd achrededig y RhCA eu datblygu. Yn ogystal bydd yr ystafell celfyddydau cymunedol yn cael ei gwella a bydd yr ardd lysiau'n cael ei hymestyn.

Sefydlwyd YMCA Llanymddyfri ugain mlynedd yn ôl er mwyn darparu ar gyfer pobl ifanc, ond bellach mae'r cylch gwaith wedi ei helaethu er mwyn cwmparu'r gymuned gyfan. Symudodd y YMCA i'r adeilad presennol 14 o flynyddoedd yn ôl, a derbyniwyd cyllid gan RDP Sir Gâr a'r Loteri i wella'r adeilad yn 2008.

Mae Clwb Gwaith wythnosol estynedig ar fin cychwyn yn yr YMCA ar bryn hawn Mawrth gan ddechrau ar 23 Hydref. Byddwn yn cynnig ystod o gymorth defnyddiol yn ystod y cyfnod hyd at y Nadolig. Mae croeso i unrhyw un ddod i'r sesiynau hyn - yn wir gorau po fwyaf. Cysylltwch â Jill Tatman drwy ffonio (01550) 721499.

## Cylch Cinio Llanymddyfri

Meddyliwch dros eich hunain, cwestiynwch bethau, a pheidiwch â derbyn y drefn - dyna oedd testun anerchiad ysbrydoledig gan Euros Lewis, y gŵr gwadd a fu'n agor tymor newydd y Cylch Cinio yng ngwesty Pen y Brenin, Llanymddyfri, nos Iau 18 Hydref.

Cafwyd cyfraniad unigryw ganddo am flynyddoedd lawer yn Theatr Felin-fach. Mae'n awdur a chynhyrchydd toreithiog ym myd y theatr ac mae hefyd yn ddarlithydd a chynhyrchydd teledu.

Ei brif brosiect ar hyn o bryd yw sefydlu Radio Beca, gorsaf radio newydd i ddarlledu'n bennaf yn y Gymraeg ar draws siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro.

Mae hefyd yn cwblhau cyfrol a fydd yn cynnig safbwynt newydd ar y theatr yng Nghymru. Bydd yn dadlau bod y Methodistiaid cynnar fel Howel Harris, Daniel Rowland a William Williams, yn rhan bwysig o'r traddodiad theatrig. Roedden nhw'n apelio at yr emosiwn, yr un fath ag arweinwyr diwygiadau diweddarach a chewri eraill y pulpud.

Beca oedd y theatr Gymreig mwyaf grymus yn y 19eg ganrif, meddai. "Roedd yr holl beth yn berfformiad. Roedd yna wisgoed a llinellau a oedd yn gorfod cael eu hadrodd."

Yn Nhonypanyd yn 1911, nid terfysg a gafwyd, ond theatr, meddai. "Nid bwriad y 12,000 o lowyr a orymdeithiodd i Donypanyd o Lwynypia oedd meddiannu'r pyllau a'u cau. Fe allsen nhw fod wedi gwneud hynny cyn i'r milwyr ddod. Ond byddai cau'r pyllau yn ddiweddd ar eu bywoliaeth."

"Dim ond siopau'r rhai a wrthododd sefyll gyda'r glowyr a'u teuluoedd a gafodd eu dinistrio. Arbedwyd siopau'r rhai a ddangosodd gydymdeimlad."

"Ar ddiweddd y Rhyfel Byd Cyntaf, pan gollwyd cenhedlaeth o bobl ifanc, codwyd neuadd goffa mewn sawl cymdogaeth. Wedi colli un genhedlaeth o bobl ifanc, penderfynwyd buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf i roi pob cyfle posib iddyn nhw feithrin eu doniau a'u haddysg anghydfurfiol (nid yn yr ystyr crefyddol)."

"Mae'r neuaddau'n dod yn ganolbwynt er mwyn cymryd drosodd yr hyn sy'n rhy fawr i'r festri a'r *church room* yn y capeli ac eglwysi. Mae eu sail mewn mynwentydd yng ngogledd Ewrop lle mae cenhedlaeth goll yn gorwedd yn gelain."

"Cyn codi'r neuaddau hyn, yr ysgol oedd yr unig lle y gellid perfformio drama. Roedd hanner y bobl a oedd yn dod ar gyfer y perfformiad yn gorfod mynd adre heb weld y ddrama am nad oedd digon o le. Ac roedd y lleill yn ei chael hi'n anodd ei gweld am fod y llawr yn wastad, a dim llwyfan ar gael. Yn Felin-fach gwnaed llwyfan allan o hen gasgenni cwrw."

Dywedodd Euros Lewis fod 300 o gwmnïau drama yng Nghymru'n disgwyl am ddrama newydd gan John Ellis Williams yn flynyddol, ond ar ôl yr Ail Ryfel Byd, roedd y nifer wedi gostwng i 30.

"Serch hynny, yn ardaloedd Cymraeg Gorllewin Cymru mae'r ddrama'n cryfhau yn y cyfnod hwn tan ddiweddd y 1950au. Dyma oes aur Edna Bonnell, a oedd allan dair neu bedair gwaith yr wythnos gyda'i chwmni. Pawb a phopeth mewn un car ag wyth sedd. Byddai'r set yn cael eu hadeiladu gan y pentrefwyr fel nad oedd rhaid ei chario o fan i fan."

"Yn aml, doedd neb yn gwybod pryd y byddai'r perfformiad yn dechrau. Yn Nhalgarreg, ceid Sioe Amaethyddol yn y dydd, rasys ceffylau gyda'r nos a'r ddrama wedyn pan fyddai'r rasys yn dod i ben - am ddeg neu hanner awr wedi deg."

Mae Euros Lewis wedi gwneud dadansoddiad manwl o gyflwr y ddrama yng Ngheredigion rhwng y 1920au a'r 1970au. "Rhaid cael arweinydd i gael y rhod i droi, ac roedd 20% o'r arweinwyr hyn yn bobl gyffredin heb addysg uwch. Roedd 20% arall yn weinidogion ac offeriaid, ond roedd y mwyafrif helaeth a oedd yn arwain y cwmnïau drama a'r corau, sef 60%, yn ysgolfeistri."

"Erbyn dechrau'r 1960au, roedd y gweinidogion yn dechrau prnhau, a diflannodd un garfan gref o'r patrwm diwylliannol. Ar ddiweddd y chwedegau a dechrau'r saithdegau, newidiodd statws yr athro, a doedd dim rhaid byw yn y pentref. Cafodd addysg y pentref ei gyfyngu i oriau'r ysgol a chafodd yr addysg anghydfurfiol ar ôl 3.30 pm. ei glastwreiddio. Yn y diffyg arweinwyr y mae'r newid yn y patrymau."

"Mor aml y clywn am y Gymraeg yn crebachu. Yr un fath a hanes y ddrama, mae'r Gymraeg yn goroesi am fod rhywun wedi penderfynu rhagweithio. Os ydym yn meddwl ei bod yn anobeithiol, mi fydd hi, Os ydym yn meddwl fod cyfle ar gael, rhaid i ni afael yn y cyfle hwnnw."

Diolchwyd i Euros Lewis gan Dai Gealy, a gyflwynodd ddarlun dyfrlliw o Soar-y-mynydd gan Lon Owen.

Milton Jones, cadeirydd; Euros Lewis, Dai Gealy.



## PONTYNYSWEN

### Marwolaeth

Yn frawychus o sydyn ar 18 Medi hunodd **Mr Wyn Davies**, Penrhiw Meredith ac yntau'n 62 mlwydd oed. Mab annwyl ydoedd i Annie a'r diweddar John Howell, brawd cariadus Mair, Olwen, Alun a'r diweddar Gwen, brawd yng nghyfraith parchus Desmond, John, Christine a Dewi, ewythr a hen ewythr hoffus. Treuliodd ran helaeth o'i fywyd ar fferm deuluol Brynreglwys, Llanfynydd lle bu'n gweithio ar y fferm ac ym maes coedwigaeth.

Dan ofal y Parch Emyr Lyn Evans cynhaliwyd gwasanaeth angladdol hollol breifat yn ei gartref ar 25 Medi gyda chladdedigau yn dilyn ym mynwent Capel Pontynyswen.

*Hedd, perffaith hedd.*





## MYDDFAI



### Cyngerdd

Cynhaliwyd cyngerdd mawreddog yn yr eglwys ar nos Sadwrn, 8 Medi. Diddanwyd y gynulleidfa gan gôr Bro Meirion o dan arweiniad Iwan Wyn Parry. Pleser a mwynhad o'r mwyaf oedd gwrandao ar y côr a'r tri unawdydd arbennig.

### Ymweliadau

Yn ystod Cynhadledd Blynyddol Merched y Wawr yn Llamed, daeth cant o'r cynrychiolwyr i ymweld â Myddfai. Rhoddwyd ychydig o hanes yr ardalar Meddygon Myddfai gan Lewis Jones, cyn iddyn nhw ymweld â'r eglwys hynafol Sant Mihangel. Mwynheuwyd te yn y neuadd cyn dychwelyd i Llamed.

Yn ystod y mis, daeth nifer o blant ac athrawon ysgol Llanybyddi i'r neuadd i gael ychydig o hanes Meddygon Myddfai gan Lewis Jones. Mawr oedd eu brwdfrydedd ynglŷn â hanes yr ardal a phleser o'r mwyaf oedd cael eu cwmni am y prynhawn.

Yn ddiweddarach yn y mis, ymwelodd grŵp o aelodau Capeli Annibynwyr o ardal Aberystwyth â'r neuadd. Taith ddirgel wedi cael ei threfnu gan y Parch Richard Lewis, eu gweinidog.

### Cyfarchion

Dymuniadau gorau i Ffion Morgan, Esgaerllaethdy, sydd wedi cychwyn ar ei chwrs gradd ym Mhrifysgol Morgannwg.

Llongyfarchiadau i Michelle Hughes, Beilicelyn, sydd wedi graddio fel nyrs. Bydd hi'n cychwyn ei gyrfa yn ysbyty Glangwili, cyn bo hir.

Dymuniadau gorau i Dylan Davies, Dyffryn ar achlysur ei briodas yn ddiweddar a hyfryd gweld ei rieni Mr & Mrs Aneurin Davies yn mwynhau yn eu cartref newydd.

Da clywed bod Glenys Williams, Cwm Bran nôl adre ar ôl llawdriniaeth yn ysbyty Treforys.

Parhau i wella mae Mr Evan Hughes, Dagfa gynt. Dymuniadau gorau iddyn nhw i gyd.

### Marwolaethau

Colled enfawr i ardal Myddfai oedd colli cymeriad gwreiddiol a hoffus ym mherson **Mr Meirion Jones**, Llwynceliog. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Seion ar 13 Hydref pryd y daeth tyrfa ynghyd. Cymerwyd y gwasanaeth gan ei weinidog y Parch Gerwyn Jones yn cael ei gynorthwyo gan y Parch Jill Hailey Harries a'r Parch Jeffrey Williams gyda Jean Hughes wrth yr organ. Estynnir cydymdeimlad diffuant â'r teulu oll.

Cydymdeimlir hefyd gyda John Griffiths, Llety'r Bugail, ar golli ei fam yn annisgwyl yn ddiweddar ac â Catherine Hughes, Dagfa ar golli ei mamgu.

### Cyrddau Diolchgarwch

Ar nos Iau olaf mis Medi cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch yn yr eglwys. Pregethwyd gan y Parch Eileen Davies, Llanfihangel ar Arth gyda Megan Evans wrth yr organ.

Ar 15 Hydref cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Bethania. Llywyddwyd gan y Parch Eifion Evans a phregethwyd gan y Parch Chris Rees, Arberth gyda Ruben Stone wrth yr organ. Recordiwyd y gwasanaeth er budd un o'r aelodau sef Eurof Jones sydd yn dal i fod mewn ysbyty ar ôl damwain ym mis Mawrth. Hyfryd oedd gweld ei deulu yn bresennol.

## PUMSAINT



### Pencampwr

Cynhaliwyd sioe ac arwerthiant arbennig o'r defaid Balwen yn ystod Gŵyl y Defaid yn Llanymddyfri. Rhoddwyd cwpan i'r pencampwr gan Huw Williams, Glynglas. Fe ddyfarnodd y beirniad mai hwrdd o eiddo Alun Williams, Rhydlydan oedd y pencampwr. Llongyfarchiadau. Felly cadwyd y tlws yn y teulu.

### Taith Megan

Braf oedd gweld Megan Lewis, Ffrwdfal yn olrhain peth o hanes ei thaith yn marchogaeth o Beijing i Lundain ar raglen *Heno*. Taith anhygoel yn llawn peryglon a phrofiadau bythgofiadwy. Brاف oedd gweld Megan a'i merch Iona yn llwyddo i gynnal y cyfweiliad cyfan yn y Gymraeg.

### Priodas

Ar ddydd Sadwrn, 25 Awst priodwyd Rhidian Lloyd, mab Tegwyn a Heulwen Lloyd, Penybont, Pumsaint a Kristina Collins, merch Pete a Lynne Collins, Bridgend, Crygybar.

Y Parchedig Goronwy Wynne oedd yng ngofal y gwasanaeth yng Nghapel Salem Caio. Cafwyd y wledd yng ngwesty'r Hanner Ffordd, Nantgaredig. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r ddau wrth iddynt ymgartrefu yn Brynywawr, Pumsaint.

### C.Ff.I Dyffryn Cothi

Dechreuwyd blwyddyn y Clwb gyda barbeciwr a gêmiau ar nos Iau, 6 Medi ar gae Neuadd Pumsaint. Bu'r noson yn un llwyddiannus iawn gyda tua 50 o aelodau, hen a newydd, yn bresennol.



*Dyfan Evans, Cadeirydd y Clwb yn cyflwyno'r ffrwythau a'r llysiau a gasglwyd yn y Cwrdd Diolchgarwch i aelod o Staff Cartref Awel Tywi.*

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y Clwb ar 4 Hydref yng Nghapel Salem, Pumsaint yng nghwmni'r Parchedig Goronwy Wynne. Bu aelodau o'r Clwb yn cymryd rhan yn y gwasanaeth a chasglwyd dros £130 tuag at Ysbyty Llanymddyfri – un o elusennau'r Clwb am y flwyddyn. Casglwyd llawer o ffrwythau a llysiau hefyd a chawsant eu rhoi fel rhodd i Gartref Awel Tywi, Ffair-fach.

Fe fydd Noson Tân Gwylt y Clwb yn cael ei chynnal ar gae Neuadd Pumsaint ar nos Iau, 1 Tachwedd. Croeso i bawb.

### Bore Coffi

Cynhaliwyd bore coffi Macmillan yn Neuadd Pumsaint ar fore Gwener, 25 Medi. Daeth nifer dda i gefnogi'r achos trwy'r bore a chodwyd swm sylweddol i'r achos.

### Stomp y Beirdd

Mae'r paratodau wedi cychwyn ar gyfer Stomp y Beirdd a gynhelir ar 2 Tachwedd am 7.30pm yng ngofal y prifardd Tudur Dylan Jones. Dewch i ymuno yn yr hwyl gyda'n beirdd lleol.

### Cyngerdd John ac Alun a Wil Tân.

Daeth cynulleidfa o bell ac agos i'r noson ardderchog yng nghwmni John ac Alun a'r band a Wil Tan a'i briod Ceri. Clywyd canu gwlad Cymru ar ei orau a'r gynulleidfa cyn diwedd y noson yn methu peidio ag ymuno yn hapus yn y canu. Cyflwynwyd rhodd anrhydeddus iawn i gronfa'r neuadd gan y llywyddion Mr a Mrs Cynfyn Davies, Cilgawod, Caio. Y Cadeirydd, Ieuan Jones, Llwyndirriad a wnaeth y cyflwyno a'r diolchiadau.

### Swper a chabaret

Mae'r tocynnau yn awr ar werth ar gyfer y swper tri chwrs a chabaret gan Tudur Owen ar 9 Tachwedd. Llywyddion y noson fydd Mr a Mrs Lyn Richards, Maesglas. Rydym yn ddiolchgar am nawdd gan Gwmni Castell Howell i'r swper. Noddir y nosweithiau gan Dathlu Diwylliant Cynllun Datblygu Gweledig Cymru. Gellir archebu tocynnau am £15 gan Eiry Griffiths (07967854773) neu aelodau pwyllgor y Neuadd.

**Dosbarthiadau**

Mae'r cyrsiau cyfrifiaduron a ffotograffiaeth yn llawn erbyn hyn. Gan bod llawer mwy am ymuno â'r cwrs ffotograffiaeth mae yna bosiblirwydd o ddechrau cwrs ychwanegol wedi'r Nadolig am 2pm ar brynhawn Iau. Mae yna gyfle i ymuno â'r cwrs Cymraeg y tymor yma os dymunir. I sicrhau lle ar y cyrsiau cysyllter a Siân Merlys yn y Ganolfan Addysg yn Llandeilo (01558) 822729.

**Clwb cwca**

Cafwyd prynhawn difyr yn edrych ar arddangosfa o sut i addurno cupcakes gan Rhonwen Thomas, Pantygwin a chyfle wedyn i addurno cacennau ein hunain. Aeth pawb adre â chwech cacen wedi addurno'n brydforth yn barod ar gyfer te. Gwyneth Morgan fydd yn rhoi cyfle i bawb wneud rholiau bara yn y sesiwn nesaf. Bydd y clwb yn cwrdd ar y trydydd dydd Llun o'r mis am 2pm o fis Hydref ymlaen. Croeso cynnes i bawb.

**Merched y Wawr**

Coginio oedd thema ein cyfarfod ym mis Hydref, Dorothy Williams, Llanbed fu'n arddangos cinio tri chwrs yn rhyfeddol o ddeheuig a chyflym i ni. Gall pawb oedd yno dystio bod y cyfan nid yn unig yn ogleuo'n dda ond yn blasu'n hyfryd iawn. Ar 14 Tachwedd byddwn yn trefnu bws i fynd i Abbey Cwm Hir i weld yr addurniadau Nadolig. Os hoffech ymuno â ni cysylltwch â Iris Evans (01558) 650321.

**Ffair grefftau**

Cynhelir y nawfed Ffair Grefftau yn Neuadd y Coroniaid, Pumsaint ar ddydd Gwener, 23 Tachwedd rhwng 2pm a 7pm; ac ar ddydd Sadwrn, 24 Tachwedd rhwng 10am a 4pm. Bydd yna hefyd raffl fawr gyda'r elw yn mynd tuag at elusen Canser y Fron. Darperir lluniaueth ysgafn ar gyfer ymwelwyr. Croeso cynnes i bawb. Os ydych am ragor o fanylion, cysylltwch gyda Judy Jenkins ar 07780910170.

**TALYLLYCHAU****Mrs Glenys Williams**

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth disyfyd **Mrs Glenys Williams**, Fronhaul, Talyllychau ar 27 Medi. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'i phriod Albert Willimas a'r plant Lyn, Diane a Vaughan a'u teuluoedd yn eu colled fawr.

Bu Albert a Glenys Williams yn ffermio yn Banc, Talyllychau cyn symud i Fronhaul ac yr oeddynt yn fawr eu parch yn yr ardal ac yn adnabyddus i lawer o bobl yn y byd amaethyddol.

Cofir am ei diddordeb cywir mewn pobl a'i chonsyrn amdanynt mewn cyfnodau anodd.

Bu'r gwasanaeth angladdol yn eglwys y plwyf Talyllychau lle daeth cynrychiolaeth gref ynghyd i dalu teyrnged iddi. Bydd gennym atgofion melys am wraig ddiwyd hawddgar.

**Cwrdd Diolchagwrch**

Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch Capel Esgairgant ar nos Wener, 28 Medi. Llywydd yr oedfa oedd Jean Davies a'r pregethwr gwadd oedd y Parch Ian Sims. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mary Williams a diolch iddi hefyd am y blodau hardd.

Yn anffodus roedd nifer o aelodau yn sâl ac yn methu â bod yn bresennol ond diolch i'r cyfeillion a ddaeth i gynorthwyo, i'r Parch Ian Sims am ei neges ac i'r gwragedd am eu gwsanaeth.

**Eglwys Sant Mihangel**

Ar ddydd Sul, 30 Medi cynhaliwyd oedfa arbennig yn yr eglwys i ddathlu 240 o flynyddoedd o fodolaeth yr adeilad presennol ac o addoli yno. Cyn hyn bu'r plwyfolion yn addoli mewn rhan o'r abat y ond oherwydd cyflwr bregus yr adeilad hwnnw penderfynwyd codi eglwys yn 1773 gan ddefnyddio cerrig yr hen abat. Diolch i bawb a ddaeth i'r oedfa ddathlu.

Ar ddydd Iau, 11 Hydref bu oedfa ddiolchgarwch plant Ysgol Talyllychau yn yr eglwys. Cafwyd eitemau hyfryd gan y disgyblion a threfnwyd te arbennig iddynt yn ysgoldy'r eglwys ar ôl yr oedfa. Diolch i'r plant a'u hathrawon ac i aelodau'r eglwys am y croeso a'r paratodau ar eu cyfer.

**TRAP****Agoriad Neuadd y Pentref**

Roedd 29 Medi yn ddiwrnod mawr yn hanes y fro gydag agoriad swyddogol Neuadd y Pentref. Caewyd drysau'r hen ysgol fach nôl yn 2005, wedi canrif a hanner o addysg, ond nawr, trwy gymorth cronfa'r Loteri, caredigrwydd yr Arglwydd Dinefwr a chefnogaeth hael ac ewyllys da pobol y gymuned, dyma ddechrau pennod newydd yn ei hanes a'r gobaith yw y bydd yn fan cwrdd llawn bwrlwm a brwdfrydedd i'r gymuned am flynyddoedd lawer. Daeth nifer fawr o bobol ynghyd i ddathlu'r achlysur a synnwyd hwy gan ei gwedd newidiad. Cafwyd prynhawn difyr dros ben gyda dymuniadau da, hen hanesion, caneuon a phennillion ac ati. Agorwyd y Neuadd yn swyddogol gan yr Arglwydd Dinefwr a chyflwynwyd anrheg fach iddo i nodi'r achlysur gan Marie Davies, Siop y Cennen, un o gyn-ddigyblion yr hen ysgol. Cafwyd cyflwyniad arbennig o biano hardd iawn gan Julie a Wyn Jones, Caerdydd er cof am rieni Julie sef Mary a Gareth Thomas, Penrhiw gynt. Y cyntaf i ganu i gyfeiliant y piano oedd Dyfan Roberts, Brynmeurig wrth iddo swyno pawb â'i lais tyner. Wedi disglaid o de, roedd cyfle i edrych o amgylch y neuadd ar yr arddangosfa o hen luniau. Byddem wrth ein bodd yn ychwanegu at y casgliad a'i gadw i'r dyfodol, felly byddem yn hoffi clywed wrthyh os oes gennych rhai. Mae'r Neuadd hefyd yn cynnwys Siop Gymunedol a Chaffi, felly mae'n le delfrydol i chi alw mewn am banded. I gloi'r dathliadau cafwyd barbeciw yn yr hwyr a noson gymdeithasol gan gynnwys bingo. Diwedd glo pleserus i ddiwrnod cofiadwy.



*Yn ystod y prynhawn cyflwynodd Pat Thomas, (Trysorydd Sioe Trap) sic o £600 i Randall Humphries (Trysorydd Cymdeithas Cymuned Trap), sef hanner elw'r Râs Hwyl a'r Rhif Lwcus tuag at y Neuadd. Yn y llun gyda nhw mae rhai o bwyllgor y sioe.*

**Noson Lawen**

Bu Noson Lawen flynyddol Sioe Trap a gynhaliwyd yn Neuadd Ddinesig, Llandeilo yn llwyddiannus iawn eleni eto. Daeth cynulleidfawr ynghyd i fwynhau noson yng nghwmni Dilwyn Morgan o'r Bala, Clive Edwards, y Canwr Gwlad, y digrifwr Don Davies acaelodau amryddawn C.Ff.I. Llangadog. Cafwyd digonedd o amrywiaeth, hwyl a chwerthin iach. Diolch am bob cefnogaeth.

**Cyfarfod Blynnyddol**

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Cymdeithas Cymuned Trap ar nos Iau, 8 Tachwedd am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Clwb Sinema**

Mae Clwb Sinema wedi ei ffurfio i'r gymuned a dangosir y ffilm cyntaf, sef *War Horse*, ar nos Wener, 9 Tachwedd am 7.30pm. Mynediad £2. Dewch i fwynhau.

**Cinio Blynnyddol**

Cynhelir cinio blynnyddol Sioe Trap yn yr Hydd Gwyn, Llandeilo ar nos Iau, 15 Tachwedd, 7pm ar gyfer hanner awr wedi saith. Enwau i Pat / Beryl (01558) 823265 / 823213.



## ~ DIGWYDDIADUR 2012 ~

ylloffwr@papurbro.org.  
**TACHWEDD**

28 Hydref tan 10 Tachwedd, Arddangosfa o luniau yn y Stesion yn Llanymddyfri. Prints a chardiau ar werth. Croeso i bawb.

- 1 Swper diolchgarwch yn Neuadd Myddfai am 7.30pm.
- 2 Cyngerdd C.Ff.I. Llangadog i ddathlu 70 mlynedd.
- 2 Stomp y Beirdd yn Neuadd Pumsaint am 7.30pm yng ngofal y prifardd Tudur Dylan Jones. Tocynnau: £5 yn cynnwys lluniaeth ysgafn.
- 3 Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog yng Nghapel Rama.
- 3 Gyrfaf chwist yn Neuadd Brechfa am 7.30pm.
- 4 Cynhelir "Joio Gyda Iesu", sef oedfa flynyddol Menter Ieuencid Cristnogol (M.I.C.), ym Methania Tymbl am 2:30pm. Siaradwr gwadd: Alun Tudur (Caerdydd). Oedfa gyfoes i'r teulu cyfan. Croeso cynnes i bawb.
- 8 Pwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr 2014 yn Ysgol y Strade, Llanelli am 7pm.
- 9 Noson Tân Gwyllt ar Gae Margaret Bowen am 6.30pm.
- 9 Swper a Chabaret i rai dros 16 oed yng nghwmni'r digrifwr Tudur Owen yn Neuadd Pumsaint am 7.30pm. Tocynnau ar werth gan Eiry Griffiths (07967854773) ac aelodau pwyllgor y Neuadd.
- 10 Cwrdd y Crefftwyr sef Ffair Grefftau Flynyddol *Crafts Alive* yn Neuadd Ddinesig Llandeilo. 9am-5pm. Mynediad am ddim. Celf a Chrefftau o ansawdd uchel, cerddoriaeth, arddangoswyr crefftau a bwyd iachus. Croeso cynnes i bawb.
- 10 Gŵyl Cerdd Dant, Conwy.
- 10 Ffair Nadolig ac adloniant rhwng 10am a 3.30pm yn Neuadd Llanarthne. Elw at brynu *defibrillator* i'r pentref.
- 10 Sioe Genedlaethol Lloï Gwartheg Simmental Cymreig ym Marchnad Da Byw Llanymddyfri am 11am.
- 10 Gyrfaf Chwist yn Yr Ystafell Ddarllen, Cwrt Henri am 7.30pm. Trefnir gan Gylch Ti a Fi Cwrt Henri. Galwr: Heulwen Jones, Bethlehem.
- 10 Cinio'r cadeiryddion, C.Ff.I. Sir Gâr yng Ngholeg Prifysgol Llanbed.
- 11 Sul y Cofio.
- 14 Gyrfaf Chwist yn Neuadd Abergorlech am 7.30pm.
- 15 Etholiadau i ddewis Comisiynwyr yr Heddlu 7am -10pm.
- 15 Cylch Cinio Llanymddyfri yng Ngwesty Pen-y-baedd, Llanymddyfri. 7.30pm ar gyfer 8pm.
- 16 Noson caws a gŵin a Ffair Grefftau Nadolig yn Yr Ystafell Ddarllen, Cwrt Henri am 6.30pm.
- 16 Cyngerdd Dathlu 70 mlynedd C.Ff.I. Llandeilo.
- 16 Gyrfaf Chwist dan drefniant Cangen Sefydliad y Merched Myddfai yn Neuadd Myddfai am 7.30pm.
- 17 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru, Abergwaun.
- 17 Noson Lawen yn Neuadd Myddfai gyda'r digrifwr Ifan Gruffydd, Parti Cut Lloï o Ddyffryn Banw ac eraill. 7pm. Tocynnau: £7
- 17 Gyrfaf Chwist yn Neuadd Ddinesig Llandeilo am 7.30pm. Galwr: Ivor Davies, Llangynnwr. Trefnir gan Gôr Meibion Dinefwr.
- 21 Noson bingo yng nghaffi mart Caerfyrddin gan yr elusen amaethyddol R.A.B.I. am 7.30pm.
- 23 Nawfed Ffair Grefftau Flynyddol yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint.
- Elw at Gancr y Fron Cymru. 2-7pm.
- 23 Cyngerdd Côr Cyswllt Cil-y-cwm yn Eglwys Cil-y-cwm gyda Ar Wasgar (bechgyn Pumsaint), Ifan Gruffudd ac artistiaid eraill. Elw'r noson yn mynd at elusennau. Cyswllt: 07951 893627.
- 24 Nawfed Ffair Grefftau Flynyddol yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint. Elw at Gancr y Fron Cymru. 10am-4pm.

- 24 Gŵyl y Synhwyr, Llandeilo.
- 24 Eisteddfod Gadeiriol Abergorlech yn Neuadd yr Eglwys, Abergorlech.
- 26,27 Ffair Aeaf Cymru yn Llanellwedd.
- 27 Noson Agored Flynyddol Menter Bro Dinefwr yn y Mountain Gate, Tŷ-croes am 7.30pm.
- 28 Cyngerdd gan Barti Merched Llanfynydd yng Nghapel Nantgaredig am 7pm.
- 28 Noson Cyri a Chlonc i godi arian i C.Ff.I. Sir Gâr, yn Sheesh Mahal, Caerfyrddin am 7.30pm. Tocyn: £12. Cyswllt: C.Ff.I. Sir Gâr (01267) 237693.
- 29 Clwb Cinio Cymraeg Llandeilo a'r Cylch yn Yr Hydd Gwyn, Llandeilo am 7.30pm.
- 30 Recordio rhaglen Nadolig Dechrau Canu Dechrau Canmol yn Eglwys Llandeilo - 7pm.
- 30 Bowllo mat byr yn Neuadd Pumsaint am 7pm.

### RHAGFYR

- 1 Ffair Nadolig yn Neuadd Myddfai. 10am - 4pm.
- 1 Miri'r Nadolig Menter Bro Dinefwr yn Neuadd Llangadog, rhwng 10am a 12pm. Adloniant a stondinau. £2 y plentyn i gael anrheg gan Siôn Corn.
- 1 Cyngerdd Dickens a Dylan gan Theatr Goleudy Abertawe yn Neuadd Myddfai am 7.30pm
- 1,2 Ffair Nadolig Aberglasne.
- 2 Canu carolau o gwmpas y goeden yn Neuadd Llanarthne am 7pm. Elw at brynu *defibrillator* i'r pentref.
- 3 Gwasanaeth y Plygain yn Eglwys Coleg Prifysgol Dewi Sant Llanbed am 7pm.
- 5 Te Nadolig Henoed Caio a Llanycrwys yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint am 3.30pm.
- 6 Cylch Cinio Llanymddyfri yng Ngwesty Pen-y-baedd, Llanymddyfri. 7.30pm ar gyfer 8pm.
- 7 Noson Siopa gan Gylch Ti a Fi Cwrt Henri yn Nhafarn New Cross, Dryslwyn am 7pm. Gŵin poeth a mins peis a stondinau amrywiol. Mynediad: £3.
- 8 Miri'r Nadolig Menter Bro Dinefwr yn neuadd Gellimanwydd, rhwng 10am a 12pm.
- 8 Bore Coffi Nadoligaidd yn Neuadd Goffa Pontarothi am 10.30am.
- 9 Gwasanaeth carolau C.Ff.I. Sir Gâr yng Nghapel Isaac.
- 14 Llwybr Cristnogol yn Neuadd ac Eglwys Myddfai am 4pm.
- 16 Gwasanaeth carolau yn Eglwys Llanfihangel Rhos y corn am 2.30pm.
- 16 Cymanfa Garolau C.Ff.I. Llangadog i ddathlu 70 mlynedd yng Nghapel Providence, Llangadog.
- 17 Gyrfaf Chwist C.Ff.I. Llangadog.
- 21 Noson o garolau yn Neuadd Goffa Pontarothi am 7pm.
- 21 Parti Nadolig yn Neuadd Myddfai am 7pm.
- 22 Gyrfaf Chwist Nadolig yn Neuadd Llanddeusant.

**Menter Bro Dinefwr**

### NOSON AGORED FLYNYDDOL

**Mountain Gate, Tŷ-croes**  
**27 Tachwedd 2012 - 7.30pm**

Cyfle i glywed am waith y flwyddyn  
a thrafod syniadau newydd.

**CROESO CYNNES I BAWB!**



## ~ SWYDDOGION Y LLOFFWR ~

**Cadeirydd**

Gwenda Rees

Tŷ Nant

42 Parc Pencrug

Llandeilo SA19 6RZ

☎ (01558) 823546

**Uwch Olygydd**

J. Mansel Charles

Sarn Gelli, Llanegwad

Nantgaredig

Caerfyrddin SA32 7NL

☎ (01558) 668823

☎ (07970) 031888

✉ [yloffwr@papurbro.org](mailto:yloffwr@papurbro.org)✉ [manselcharles@btinternet.com](mailto:manselcharles@btinternet.com) ☎ (01269) 850497**Trysorydd**

Owain Siôn Gruffydd

☎ (01558) 825336

**Swyddog Hysbysebion**

Wyn Williams

☎ (01550) 777834

**Swyddog Tanysgrifio**

Peter Harries

☎ (01558) 823075

**Argraffu**

Lewis Argraffwyr, Caerfyrddin

☎ (01267) 233510

**Golygydd y mis****Tachwedd 2012**

Len Richards

**Cyfranwyr rheolaidd***Y Gorlan Grefyddol*

Nigel Davies

*Llecyn Llên*

T.M.Thomas

*Tudalen y Plant*

Daniel Thomas

*Croesair*

Handel Jones (Agrestis)

**Ffotograffwyr**

John B. R. Davies

☎ (01269) 850497

William Theophilus

☎ (01550) 720425

Cliff Price

☎ (01558) 668659

**Prawffdarllen**

Len Richards

Elin Bishop

**Teipio a Chysodi**

Menter Bro Dinefwr


☎ (01558) 825336

**Cofnodydd Cyfarfod Blyneddol**

Rhian Morgan

## ~ CROESAIR ~

gan Agrestis

**Ar Draws**

1. Stori am blant gan Kate Roberts (10)
7. Eiddgedd (8)
8. Bydd adar yn dodwy'r rhain (4)
9. Bachgen yn deffro, nwy yn gollwng (4)
10. Llestri (7)
12. Y defnydd o belydr-X (11)
14. Bachgen yn dewis epa neu rinoser (7)
16. Math o bastwn i daro pêl golff (4)
19. Mae bod ar hwn yn golygu bod yn ddi-waith (4)
20. Geiriau a ddefnyddir o waith rhywun arall (8)
21. Dywediadau sy'n cael eu gordefnyddio (10)

**I Lawr**

1. 'Nef a ———, tir a môr / Sydd yn datgan mawl ein lôr' – Elfed (cyfieithiad) (5)
2. Yn brydlon (2,5)
3. Nid ie (4)
4. Tafamwr neu berchennog tir (8)
5. Darn o borfa sy'n cael ei dorri'n gwta (5)
6. Lliw rhosyn yn nillad Madam Asgara (6)
11. Un o swyddogion yr Orsedd (8)
12. Enw cyntaf deugeinfed arlywydd yr Unol Daleithiau (6)
13. Gwiriondeb (7)
15. Ynad (5)
17. Profi bwyd (5)
18. Llyncu diod (4)

Cystadleuaeth agored - cynigir gwobr y mis hwn eto.  
Atebion at yr Uwch Olygydd cyn **18 Tachwedd 2012**.

ENW:.....

CYFEIRIAD:.....

FFÔN:.....

**ENILLYDD CROESAIR HYDREF:****Yvonne Thomas**, London House, Gwernogle.

**ATEBION Ar Draws** 1. Gwisgo 4. Sodom 7. Rhandir 8. Galwyn  
9. Sara 10. Dimai goch 12. Traddodiadol 17. Cymrodyr 19. Saer  
20. Eidion 21. Ni wŷr y 22. Annedd 23. Caplan  
**I Lawr** 1. Gwarant 2. Indiana 3. Gwrthdroad  
4. Smala 5. Diwygio 6. Mynychu 11. Meithrinfa 13. Ramadan  
14. Disgwyl 15. Loetran 16. Ecsema 18. Os oedd



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**

Sponsored by  
**Welsh Government**

**DYDDIAD CAU - RHIFYN RHAGFYR**

Rhaid i erthyglau gyrraedd yr Uwch Olygydd erbyn 16 Tachwedd  
a'r newyddion bro erbyn 18 Tachwedd. Fe fydd rhifyn nesaf  
yn cyrraedd y siopau erbyn 30 Tachwedd.

**RHAID I'R CYFRANIADAU FOD YN GYMRAEG**

Croesewir cyfraniadau ar e-bost os yw hynny'n bosibl

**[yloffwr@papurbro.org](mailto:yloffwr@papurbro.org)**

Nid yw'r Lloffwr o reidrwydd yn cytuno â'r  
farn a adlewyrchir ym mhob un o erthyglau'r papur



## ~ HYSBYSEBION ~

**SPAR** 

**Canolfan Loteri**  
**Hurio DVD's**  
**Bwydydd**

Mr & Mrs Patel  
Spar Llandeilo  
56 Heol Newydd  
Llandeilo  
SA19 6DF  
(01558) 823592

**Gwasanaeth  
Parcel**  
**Sioop drwyddedig**  
**PayPoint**

Amserau agor: 7am - 10.30pm  
(Pob un diwrnod o'r flwyddyn)

**DEWI ROBERTS**  
**Cigydd Teuluol**

**CIG EIDION CYMRAEG O SAFON**  
**GWASANAETH ARCHBUTRWR YR POST**  
**CIGOEDD ORGANIG**

18 TERAS TYWI, FFAIR-FACH,  
LLANDEILO, SA19 6ST  
☎ (01558) 822566



**JONES**  
**TELEVISION**

**Gwerthu, Rhentu a Gwasanaeth Domestig**  
☎ Nantgaredig (01267) 290372 / (01267) 290573  
*Eich busnes annibynnol lleol lle mae gofal cwsmer yn cael ei warantu - dosbarthu am ddim (hyd at 30 milltir)*

**Teledu, Fideo, Peiriannau Golchi a Sychu**  
**Systemau Hi-fi, Oergelloedd a Rhewgelloedd**  
Gosod am ddim i bwyntiau sy'n bodoli eisoes  
**HOTPOINT - PHILIPS - SIEMENS - BOSCH**  
**JVC - HOOVER - CANNON - DIMPLEX**

**Igam Ogam**  
**Anrhegion Di-ri**  
yn arbenigo mewn nwyddau Cymraeg personol

Cardiau  
Brodwaith  
'bunting'  
Crysau-t unigryw  
bagiau personol  
crochenwaith  
'hoodies'


103 Stryd Rhosmaen,  
Llandeilo,  
Sir Gaerfyrddin,  
SA19 6HA,  
Ffon 01558 822698  
www.igamogamgifts.co.uk



**HAYDN ADAMS**  
**PEINTIWR A PHAPURWR**

10 Heol y Frenhines,  
Llanymddyfri,  
Sir Gâr

01550 721754 / 07776036642



**EIFION ROBERTS**  
**PLYMWR PROFIADOL**  
Arbenigwr mewn gwres canolog  
☎ **(01558) 685007**

**AQUAFIX WATER & ELECTRICS LTD**  
**ARBENIGWYR MEWN SYSTEMAU**  
**DŴR GLÂN A BRWNT**

**Ffoniwch Gareth neu Jean** ☎ **01269 841 800 / 07814 027 045**  
Uned 6, Stad Ddiwydiannol Gorslas,  
Gorslas, Sir Gâr

**W.D. Lewis**  
**a'i Fab**  
Masnachwyr Amaethyddol  
Agricultural Merchants


Cangen Pumsaint, Broneb Stores  
Pumsaint, Llanwrda, Sir Gaerfyrddin  
☎ (01558) 650215  
☎ (01570) 422540  
AM EICH HOLL NWYDDAU  
AMAETHYDDOL CYSYLLTWCŴ Â NI.

Am fusnes cyfeillgar, teuluol,  
profiadol yn y byd amaethyddol,  
heb os, i'ch stoc cewch fwydd  
maethlon yn W.D. a sylw prydlon.



**JOHN ANTHONY**  
*a'i Gwmni*

**CERFLUNWYR**  
**COFADEILIAU**  
**a SEIRI MAEN**



Perch. E. Ja  
N. Gimblett  
(C. Harry gynt)

24 STRYD FAWR, RHYDAMAN  
☎ (01269) 596227 Nos: 592935  
*Cerflunwyr Cofadeiliau yn y lle uchod ers 1920 hefyd yn*  
123 STRYD RHOSMAEN, LLANDEILO  
☎ (01558) 823104

Cysylltwch â Gerwyn Davies yn  
Swyddfa'r NFU Mutual yn Llandeilo  
ar (01558) 823382

  
**NFU Mutual**


**Am wasanaeth**  
**lleol o safon**  
**-**  
**yswiriant**  
**pensiynau a**  
**buddsoddiadau**




# ~ TUDALEN Y PLANT ~

Helo Blant!

Mae'n noson Guto Ffowc cyn hir. Rwyf wrth fy modd yn gwyllo'r holl dân gwylt. Cofiwch wisgo'n gynnes a byddwch yn ofalus!



Hwy Elis!



Lliwiwch y llun



Enillydd y mis diwethaf oedd:

**Molly Llewellyn Edwards.** 2 Parc Pencrug, Llandeilo. 2 ½ oed.

Anfonwch eich cynigion at

Elis, Menter Bro Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo erbyn 18 Tachwedd 2012.



## ~ HYSBYSEBION ~

### L.J. BAILEY A'T FEIBION

LLANGADOG (Siop Fwydydd MACE)

*Prisiau cystadleuol*

*Pob math o gig a bacwn o ansawdd da  
Gwasanaeth rhagorol bob amser*

☎ (01550) 777217 [Bwydydd]

☎ (01550) 777242 [Cigydd]



### ALUN DAVIES

**ADEILADWR**

Cilgawod, Caio, Llanwrda, Sir Gâr, SA19 8PG

☎ **01558 650570 [Cartref] / 07974 716211 [Symudol]**  
e-bost: alundavies1@hotmail.com

Ar gyfer pob math o waith adeiladu, cartrefi newydd, atyniadau, estyniadau, adnewyddu ac adfer adeiladau cofrestredig, toeon a simneau, ffenestri a drysau PVC

**Am wasanaeth heb ei ail a chreffftwaith o safon.**

### RED DRAGON ATV'S Y DDRAIG COCH

Ffarmers, Llanwrda

**BEICIAU NEWYDD, TEIARS  
RHANNAU, GWASANAETH**

Dewch ata i gyda'ch Honda ATV  
Ffoniwch Irfon ar (01558) 650740

### GERAINT WILLIAMS

Modurdy Rhosybedw  
Ffaldybrenin

Profion MOT, Batteries,  
Exhausts

☎ (01558)  
**650609**

Gwasanaeth Adfer  
ac Atgyweirio

### D. L. WILLIAMS

Iard Pant-yr-Esgair, Talylychau, Llandeilo

*Masnachwr llechi a phob math o goed*

Bwyd anifeiliaid Bibby

☎ (01558) 685217 (dydd) / 685722 (nos)

### ADEILAD CLADDINGS

(EIRIAN DAVIES)

Y Stordy, Heol yr Orsaf, Llanwrda

☎ (01550) 777497

Zinc sheets a steel girders, arbenigwyr mewn toeon crwn

### Eric Davies GOSODWR TEILS



Gwaith yn cynnwys pob agwedd ar adnewyddu,  
ceginau, ystafelloedd ymolchi a lloriau.

Derwendeg, Pontargoethi, Caerfyrddin, SA32 7NH

☎ (01267) 290236 ac 07966 542586

### A & B Plant & Tool Hire

BRYNDOLAU, FFARMERS

LLANWRDA, SIR GÂR

SA19 8JP

**ARAGOR**

LLUN - GWE 8.00 - 5.30

SAD 8.00 - 1.00

**FFÔN PUMSAINT. 01558 650536**

**FFAC S PUMSAINT. 01558 650516**



### CARPEDI PUMSAINT

Gwasanaeth gosod carpedi  
hen, ail-osod neu newydd

Ffoniwch Alun

(01558) 650364

neu 07977 121201

AXMINSTERS, WILTON,  
TWISTS, GWLAN, CORDS,  
CUSHIONFLOOR,  
UNDERLAYS

*"Carpedi i Siwtio Pawb"*

Gellir trefnu ymweliad â'r  
cartref gyda samplau.

### Roger Davies LLOGI PEIRIANNAU

Gwnawn unrhyw waith -  
bach neu fawr

20 mlynedd o brofiad

☎ (01558) 685614  
☎ 07968 838467

Peirianau turio â thraciau 5-15 tonnall.  
Pob math o waith sylfeini, ar gyfer ceffylau, tirlunio  
draeni ac unrhyw waith arall gyda pheirianau  
trymion.

Cwmgolygfa, Rhydcymerau,  
Llandeilo, Sir Gâr, SA19 7RP

### SIOP Y PENTAN

Y dewis gorau o lyfrau  
casetiau a chardiau Cymraeg

Creffftau lleol newydd!

Gwasanaeth Ysgolion

Y FARCHNAD  
CAERFYRDDIN

☎ (01267) 235044

### WILLIAM I. PHILLIPS

DERWENDEG, LLANSAWEL

☎ (01558) 685446

Symudol 07836598989

CONTRACTWR CLUDIANT

CYNNYRCH CHWAREL

### NEW ROAD GARAGE

☎ (01550) 720836

Garej Atgyweirio Cyffredinol

Wedi Torri Lawr? Ffoniwch Ni!

Gwasanaeth Torri Lawr 24 Awr

M.O.T Dosbarth 4

Car Cwrteisi Ar Gael!

### CHECKPOINT



☎ (01558)  
**650338**

*'Tyres, Exhausts a  
Batteries'  
Profion M.O.T*

## ~ CEFN GWLAD ~



### AR Y FFERM gan Meinir Jones

Wedi'r haf gwylpaf ers cant o flynyddoedd, mae'r tywydd wedi costio'n ddrud iawn i Brydain gyfan, ac mae'r gaeaf wedi dod yn gynnar, wrth i'r gwartheg ym Maesteilo fod mewn ers dechrau mis Hydref. Fe fydd hi'n aeaf hir i lawer, yn enwedig wrth ystyried ansawdd y cynydau sydd wedi'u cynaeafu eleni.

Wedi dweud hynny mae arwerthiannau'r defaid wedi dirwyn i ben, doedd y

prisiau ddim cystal â llynedd, ond yn ddigon teg. Arwerthiant yr NSA oedd fy mhrif arwerthiant i gyda fy nefaidd Balwen, ac roedd prisiau'r brid yn gyson eleni, gan ddenu ambell i brynwr newydd hefyd.

Mae mis Hydref wedi gwibio heibio, gyda chalendr gweithgareddau'r Clwb Ffermwyr Ifanc yn ail ddechrau. Dyma fy mlwyddyn olaf eleni fel aelod o'r mudiad, ac er imi ymaelodi yn un ar ddeg mlwydd oed mae'r cyfnod wedi hedfan. Dwi wedi cael profiadau bythgofiadwy, ac fe fyddai'n ddyledus i glwb Llanfynydd a Sir Gâr trwy gydol fy oes, o ganlyniad i'r holl brofiadau a chyfleoedd dwi wedi eu derbyn. Y cyngor gorau gefais i oedd, cymrwch bob cyfle sy'n cael ei gynnig i chi, a gwnewch y mwyaf ohono, oherwydd mae chwech ar hugain yn dod yn gyflym IAWN.

Gallaf gofio'n glir fy nghystadleuaeth gyntaf fel aelod, sef beirniadu stôc ar fferm John a Hazel James Tyllwyd Felingwm pan oeddwn yn un ar ddeg mlwydd oed. Dyna oedd profiad nerfus iawn credwch fi! Gyda fy nghoesau'n crynu fel jeli, a ngheg yn sych bu rhaid i mi ddweud fy rhesymau o flaen y beirniad Dewi Thomas Llwynyfoda, Llannon. Chware teg iddo, fe fu'n garedig iawn gan beidio â bod yn rhy llym arna i.

Dechreuais fy mlwyddyn olaf fel aelod gyda thaith i Stafford gan fy mod yn hyfforddi tîm siarad cyhoeddus Sir Gâr. Y tîm oedd Delyth Davies o Glwb Capel Dewi, Nia Eyre a Gwennan Campbell o Glwb Llanfynydd. Roedd y tair eisoes wedi ennill ar lefel Sirol ac yng Nghymru, ac felly yn cael yr anrhydedd i gynrychioli'r wlad ar lefel Cenedlaethol. Perfformiodd y tair yn wych, ac ar ôl beirniadaeth neilltuol ar ddiwedd y dydd cyhoeddwyd mai Sir Gâr oedd wedi ennill! Dyna oedd dathlu - tair Cymraes yn mynd yr holl ffordd i Loegr ac ennill cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg! Diwrnod i'w gofio yn sicr i'r tair a rheini mor ifanc, a minnau mor falch ohonyn nhw.

Wedi'r siwrnai hir nôl, rhaid oedd bwrw ati i ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod Sirol a gynhaliwyd hefyd ym mis Hydref. Roedd yr awyrgylch yno'n drydanol, gyda'r safon yn neilltuol dros y tridiau, a'r lle dan ei sang. Eisteddfod lewyrchus oedd hi i Lanfynydd wrth ennill 10 cwpan a'r gadair. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ein cefnogi ni, a'n hyfforddi ni ar hyd y daith. Dyma'r bobl sydd bob tro yn gweithio'n ddiwyd yn y cefndir, ac yn rhoi eu hamser prin yn rhad ac am ddim er ein lles ni.

Ar ddiwedd yr Eisteddfod cyhoeddwyd mai clwb Llangadog oedd yn fuddugol, gan ennill y darian gwaith cartref a tharian fuddugol yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw, ac i bawb wnaeth gystadlu. Pob lwc nawr i'r aelodau fydd yn cynrychioli'r sir yn Eisteddfod Cymru yn Abergwaun ar ddiwedd y mis.

### Prawf newydd i frwydro yn erbyn y diciâu

Mae gwyddonwyr yn Surrey wedi dyfeisio prawf newydd fel bod modd gwahaniaethu rhwng gwartheg sydd wedi eu heintio â'r diciâu a'r rheini sydd wedi cael eu brechu.

Mae brechu gwartheg yn erbyn y gyfraith yn Ewrop ers 1978 gan na fu ffordd hyd yn hyn o wahaniaethu rhwng y ddau gategori o wartheg.

Yr Athro Glyn Hewinson o'r Asiantaeth Labordai Milfeddygon sydd wedi dyfeisio'r prawf newydd a allai olygu y byddai modd i Lywodraeth Cymru ddwyn pwysau ar yr Undeb Ewropeaidd i newid y gyfraith er mwyn brechu gwartheg yn erbyn y diciâu, ond mae Prif Filfeddyg Llywodraeth Prydain, Nigel Gibbens wedi dweud y gallai gymryd blynyddoedd cyn i'r prawf fod ar gael.

Mae'r broses o ddifa moch daear eisoes wedi dechrau yng ngorllewin Lloegr. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi brechu 930 o foch daear ar ôl g w y r d r o i penderfyniad y llywodraeth flaenorol i ddifa moch daear yn Sir Benfro a Cheredigion. Mae'r llywodraeth hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno brechiad ceg ar gyfer moch daear. Ni fyddai angen dal moch daear mewn cewyll er mwyn cyflwyno'r driniaeth hon.



### Nifer y moch yng Nghymru wedi gostwng

Yn ôl ystadegau Hybu Cig Cymru roedd yna 25,600 o foch yng Nghymru erbyn diwedd 2011, sy'n llai na hanner y nifer yn 2000 sef 65,200.



Dywedodd Swyddog Gwybodaeth y Diwydiant Hybu Cig Cymru, John Richards: "Un o'r prif resymau am hyn yw pris uchel porthiant sydd, yn ôl amcangyfrifon, yn cyfrif am hyd at 60% o'r cyfanswm."

Mae cynhyrchwyr yn derbyn 154.8c y kilogram am foch ar gyfartaledd, ond mae'n costio 169c y kilogram i'w cynhyrchu.

Barn rhai yw bod yn rhaid i'r Llywodraeth, boed yng Nghaerdydd, San Steffan neu Frwsel, wneud mwy i gefnogi'r diwydiant Cymreig pwysig hwn a sicrhau ei oroesiad yn y dyfodol.



Gwasanaethau diogelach wrth lanhau ffenestri  
*Safer Window Cleaning services*

Cartrefi, lleoedd mân  
werthu ac adloniant

Prisiau o gyn lleied â £5

Gwasanaeth i'r ardal gyfan



☎ (01267) 345670 / 07773 900777

🌐 www.rclean.co.uk

**M+J TYRES GARAGE SERVICES Ltd**

Teiars, Brêcs, Batris, ecsôsts, a  
gwasanaethu.

Mae John a Mark (ATS-gynt) yn  
eich gwahoddi i alw mewn!



A476 Ffair-fach i Garmel cyn troad Derwydd

Park Lane, Gelli Aur, SA32 8NW. (01558) 823427

Angen siarad yn gyfrinachol?

# SAMARIAID

Llinell Gymraeg  
0300 123 3011

~SEFYDLWYD 1797~

## D. LLOYD A'I FEIBION

GLANRWYTH, PUMSAINT, LLANWRDA

☎ (01558) 650209 a 650451

Ffacs: 01558 650440

*Masnachwyr coed a nwyddau adeiladu,  
a ffensio o bob math.*

*Glo caled a glo meddal o'r ansawdd gorau.*

### Gwasanaethau Fferm a Busnes Cyffredinol

Dai Dyer B.Sc. Amaeth (Anrh)

Ffôn: 01550 720956 / 07977 913637

Cyfrifon TAW a Chyffredinol

Glastir

Materion Cynllunio Byd Amaeth

Taliadau Sengl (SFP)

Cofnodion Fferm

**Penroc, Heol Llangadog,  
Llanymddyfri, SA20 0DZ**



18 Stryd  
Caerfyrddin,  
Llandeilo  
SA19 6AE

(01558) 823658

22 Stryd y Cerrig,  
Llanymddyfri  
SA20 0JP  
(01550) 720500

**Dr Rhys Ap Delwyn**

**Phillips**

B.D.S., MSc., M.F.G.D.P.

**Dr Aimee Jones**

B.D.S. Caerdydd

**DROS 30 O FLYNYDDOEDD**

**O WASANAETH DEINTYDDOL**

**TEULUOL TRADDODIADOL**

**YN COFRESTRU CLEIFION NEWYDD**

trywydd

Gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol  
am bris cystadleuol

#### Gwasanaethau Iaith

- cyfieithu ar y pryd
- cyfieithu ysgrifenedig
- golygu a phrawf-ddarllen

#### Gwasanaethau Ymgynghorol

- hyfforddiant
- ymchwil
- rheoli prosiectau

#### Llogi Offer

- cyfieithu ar y pryd
- sain a goleuo
- cynadledda

#### Trywydd

Y Llwyfan, Heol y Coleg  
Caerfyrddin SA31 3EQ

ffôn 01558 825336  
ffacs 01558 825339

post@trywydd.co.uk  
www.trywydd.co.uk

Un o wasanaethau

Menter Bro Dinefwr



## ~ Y GORLAN GREFYDDOL ~

**Eglwysi a Chapeli yn ystyried cynllun radical ar gyfer cydweithio**

Gallai'r rhaniadau traddodiadol rhwng eglwysi a chapeli ddiplannu yn wyneb symudiad newydd at ragor o undod.

Cynhaliwyd cynhadledd – Y Cydgynnulliad – yn Aberystwyth ym mis Hydref ac fe'i mynychwyd gan gynrychiolwyr o'r pum Eglwys Gyfamodol yng Nghymru – yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, yr Eglwys yng Nghymru a rhai cynulladau Bedyddwyr Cyfamodedig. Mae gan y pum eglwys tua 2,500 o eglwysi rhyngddynt. Pwrpas y gynhadledd oedd edrych ar ddulliau chwildroadol o gyd-weithio'n agosach.

Y prif siaradwr yn y Cydgynnulliad oedd y Parch Dr Olav Fykse Tveit, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd.

Dywedodd y Parch Gethin Abraham-Williams, Cadeirydd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodedol:

"Bedwar degawd yn ôl, cychwynnodd pump o'r prif draddodiadau Cristnogol yng Nghymru ar lwybr tuag at gyflwyno tystiolaeth unedig ar gyfer yr Efengyl. Gwnaethant gyfamod difrifol gerbron Duw â'i gilydd fel bo modd eu tywys ynghyd mewn un Eglwys weledol i wasanaethu â'i gilydd er mwyn cenhadu er gogoniant i Dduw. Yn y Cydgynnulliad, bu'r eglwysi yn ail-asesu eu cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion hynny".

Ychwanegodd Archesgob Cymru, Dr Barry Morgan: "Dyma'r digwyddiad eciwmenaidd mwyaf yng Nghymru ers blyneddau lawer. Mae ein diffyg undod yn tanseilio ein neges o gymodi. Rwy'n gobeithio y gallwn ganfod ffordd ymlaen fel Eglwysi yng Nghymru."

Lansiwyd cyfres o adroddiadau yn y Cydgynnulliad, yn amlinellu cynigion arloesol ar gyfer math newydd o esgob, wedi ei fabwysiadu gan eglwys Ddiwygiedig ac sy'n fynegiant newydd o ddealltwriaeth yr eglwys o swydd esgob. Maent hefyd yn rhagweld un Eglwys Unedig i Gymru, ble bydd modd cyfnewid gweinidogaethau ordeiniedig rhwng y rhai hynny o gefndiroedd capel neu eglwys.

Daeth y diwrnod i ben trwy rannu bara a gŵin gan ddefnyddio trefn newydd sbon ar gyfer y Cymun Sanctaidd.

Yn dilyn y cyfarfod bydd cynrychiolwyr swyddogol o bob un o'r pum Eglwys Gyfamodol yn cyflwyno'r adroddiadau i'w eglwysi lleol, ac fe fydd y pum Eglwys yn ymateb i'r argymhellion ymhen amser.

**Cymanfa Ganu Gydenwadol Llandeilo a'r Fro**

Cynhaliwyd ail Gymanfa Ganu Gydenwadol Llandeilo a'r Fro yng nghapel Ebenezer, Llandeilo ar 30 Medi.

Roedd y noson yn llwyddiannus iawn o dan arweiniad medrus Rob Nicholls (Caerdydd) gyda Marilyn Morgan wrth yr organ.

Yr artistiaid oedd aelodau a Glwb Ffermwyr Ifanc Llanfynydd a'r Llywydd oedd y Parch Mary Davies. Bu'r canu yn safonol ac fe gasglwyd £250 at gronfa Canolfan Plant Sir Gâr. Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth eleni eto. Cynhelir Cymanfa Ganu Gydenwadol Llandeilo a'r Fro flwyddyn nesaf yng Nghapel Salem, Heol Newydd, Llandeilo ar 22 Medi 2013 am 6pm.

**Cadw'r hen draddodiad**

Braf fydd croesawu pobl o bell ac agos unwaith yn rhagor i wasanaethau blynyddol **Y Plygain**. Fe fydd y cyntaf yn yr ardaloedd hyn yn Eglwys Coleg Pifysgol Dewi Sant Llanbed ar nos Lun, 3 Rhagfyr am 7pm.

Fe fydd yr olaf ar nos Sul, 27 Ionawr 2013 yn Eglwys Sant Teilo, Llandeilo Fawr am 6pm. Llynedd daeth mwy o gantorion ynghyd nag yn y blynyddoedd cynt, a hynny o bob rhan o Dde a Chanolbarth Cymru. Canwyd nifer o hen garolau yn soniarus a theimladwy gan nifer o bartion ac unigolion. Diweddir y gwasanaeth gyda Carol y Swper cyn i'r gynulleidfa gael cyfle i gymdeithasu dros fasnied o gawl ac yna cychwyn am adref. Croeso cynnes i bawb gan obeithio na fydd gwasanaethau mewn eglwysi eraill yn amharu ar eich cyfle i fynychu a phrofi un o hen draddodiadau Cymru.

Mae Parti Plygain Llandeilo yn mynd o gwmpas yr ardaloedd hyn yn ystod y gaeaf hefyd i gynnal noson o Gadw Gŵyl. Fe fyddan nhw yn Llangennech ar 19 Rhagfyr ac yn Nhreforus ar 10 Ionawr. Os ydych chi am drefnu noson yn eich ardal yna cysylltwch gyda Rhian Morgan ar (01558) 824333.

**Tlws John a Ceridwen Hughes**

Mae Urdd Gobaith Cymru wedi derbyn cynnig caredig y teulu i gyflwyno tlws yn flynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ieuencid Cymru ac y mae'n bryd ystyried enwau ar gyfer y tlws.

- Gellir ystyried rhywun sydd wedi cyfrannu at waith ieuencid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi gorau iddi erbyn hyn, yn ogystal, wrth gwrs, â rhai sydd yn dal i weithio gyda phobl ifanc.
- Dylai'r gwaith fod trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu'n ymwneud ag ieuencid sy'n dysgu'r iaith
- Dylai fod yn waith wyneb yn wyneb â phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i gyfundrefn addysg ffurfiol.
- Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuencid (diwylliannol, corfforol, dyngarol, cymdeithasol, gyda phobl anabl, gyda dysgwyr, rhoi cyfle i ieuencid gyfrannu, gwaith awyr agored, cyfnewid ac yn y blaen).
- Gall fod yn waith gydag unrhyw fudiad ieuencid.
- Gofynnir i chi ddefnyddio'r ffurflen enwebu briodol sydd ar gael o Swyddfa'r Urdd.

Cysylltwch gyda Enfys Davies, Swyddfa'r Urdd Penhelyg, Gwersyll Llangrannog, Llandysul, Ceredigion ar 01239 652163, neu trwy e-bost - [enfys@urdd.org](mailto:enfys@urdd.org)

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol**

Recordir rhaglen Nadolig DCDC yn Eglwys Llandeilo ar nos Wener, 30 Tachwedd, gydag ymarfer ar nos Fercher, 21 Tachwedd, y ddau ddechrau am 7pm. Yr arweinydd fydd Owain Gruffydd, Ffair-fach gyda Rob Nicholls, Caerdydd wrth yr organ. Croeso cynnes i bawb.



## ~ LLECYN LLÊN ~

### Cystadlaethau

Dyma'r atebion i'r gystadleuaeth yn rhifyn mis Medi

1. Yr enw cyffredin a roddir ar Gymdeithas y Cyfeillion yw Y Crynwyr.
2. Ysgrifennwyd y nofel 'Un Nos Olau Leuad' gan y llenor Caradog Prichard a oedd yn adlewyrchu llawer o brofiadau personol, ac afiechyd meddyliol ei fam.
3. Ganwyd y bardd poblogaidd Saesneg Robert Browning yn Camberwell, Llundain yn 1812, a phriododd â'r bardd Elizabeth Barratt. Bu ef farw yn 1869.
4. Ysgerbwdd a ddarganfuwyd ym Mro Morgannwg yn 1823 oedd 'Dynes Goch Haviland.' Profwyd mae gweddillion gŵr ifanc o'r Oes Balaeolithig, tua 2800 o flynyddoedd yn ôl, ydoedd.
5. *The Sparrow Tree* yw'r wythfed gyfrol o farddoniaeth o waith Gwyneth Lewis bardd coron Eisteddfod Genedlaethol 2012.
6. Dymuniad Culhwch oedd priodi Olwen merch Ysbaddaden Gawr, a gosododd hwnnw res o orchwylion iddo i'w cyflawni i'w hennill, gan gynnwys dal y Twrch Trwyth.
7. Ceir hanes cyflawn teithiau cenhadol yr Apostol Paul yn Llyfr yr Actau.
8. Cynnwys *The Canterbury Tales* gan Geoffrey Chaucer yw storïau a adroddai y pererinion ar eu ffordd i ymweld â bedd Thomas Becket, Archesgob Caergraint a lofruddiwyd ger yr allor yn y Gadeirlan ar orchymyn y brenin Harri'r Ail yn 1170.
9. Un o gerddi mwyaf poblogaidd Dylan Thomas yw 'Fern Hill', atgofion am ddyddiau ieuentid a dreuliodd gyda thylwyth ar y fferm honno.
10. Achos Rhyfel Caerdroea oedd ymgais Achilles i rhyddhau Helen, gwraig Menelaus a oedd wedi ei chipio gan Paris, mab brenin Caerdroea.
11. Enw yr Iddew creulon a oedd yn bygwth bywyd y marsiandiwr Antonio yn *The Merchant of Venice* oedd Shylock.
12. Gwelir geiriau y Prifardd Gwyneth Lewis ar ganolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd.

Y mae dau ymgeisydd wedi llwyddo i ateb pob un yn gywir sef, **Joan Jones**, Llain Wen, Falcondale Drive, Llanbedr Pont Steffan a **Glenys Davies**, Y Dderwen, Manordeilo.

Diolch i'r cystadleuwyr eraill am eu cefnogaeth.

Dyma'r gystadleuaeth nesaf.

1. Pwy enillodd y brif wobr Llyfr y Flwyddyn yn 2012?
2. Pwy oedd y Sais a deithiodd hyd a lled Cymru yn y bedwaredd ganrif a'r bymtheg gan grynhoi ei brofiadau mewn llyfr o'r enw *Wild Wales*?
3. Ym mha wlad y ganwyd y cerddor Guastav Holst?
4. Cyflawnodd Gwilym R. Jones, Mererid Hopwood a Dylan Iorwerth gamp anghyffredin yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Beth yw'r gamp sy'n eu gosod mewn dosbarth arbennig ymhlith ein llenorion?
5. Ym mha flwyddyn sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru?
6. Hunangofiaint pwy yw Cofnodion a gyhoeddwyd yn ddiweddar?
7. Am faint o flynyddoedd y meddianwyd Cymrugany Rhufeiniaid?

8. Cyrhaeddodd y llong ofod *Curiosity* i archwilio y blaned Mars yn Awst 2012, wedi cychwyn ar ei daith yn Nhachwedd 2011. Tua faint o filltiroedd bu'n rhaid iddi deithio?
9. Ymhle y ganwyd Barack Obama, Arlywydd yr Unol Dalieithiau?
10. Â pha dref lan y mor yng Nghymru y cysylltir Alice y lluniodd Lewis Carroll ei nofel *Alice in Wonderland* amdani?
11. Pa wenidog gyda'r Bedyddwyr a anfonwyd i garchar yn 1936 am roi adeilad ar dân?
12. Dyma benillion cyntaf enwog gan un o feirdd mwyaf Cymru. Enwch yr awdur.

Gorwedd llwch holl saint yr oesoedd  
A'r merthyron yn dy gôl,  
Ti a roddaist iddynt anadl  
A chymeraist hi yn ôl.

Bu'r angylion yma'n tramwy,  
Ar dy ffyrdd mae ôl eu troed,  
A bu'r Ysbryd Glan yn nythu  
Fel colomen yn dy goed.

Anfonwch eich atebion at **T.M.Thomas**, Tirallen, Llanwrda erbyn 10 Rhagfyr.

### CYSTADLEUAETH!

Cyfle i ennill tocyn gwerth £10 i'w wario yn Siop y Cennen! Atebwch y cwestiwn isod a'i anfon at: Menter Bro Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo SA19 6HW neu e-bostiwch eich ateb at: [danielthomas@menterbrodinefwr.org](mailto:danielthomas@menterbrodinefwr.org) cyn 18 Tachwedd 2012.

Pa flwyddyn dechreuodd S4C?

Ateb:.....  
Enw:.....  
Cyfeiriad:.....  
.....

Ateb cystadleuaeth Hydref: Athro Laura McAllister  
a'r enillydd oedd: **Gareth Davies**, Tircelyn, Cwm-du, Llandeilo.

### SIOP Y CENNEN

Uned 4, Byd y Siopwr, Stryd y Gwynt, Rhydaman, SA18 3DN  
LLYFRAU \* CARDIAU \* CREFFTAU \* DISGLAU

*Cyflenwyr Ysgolion a Llyfrgelloedd*

☎ (01269) 595777

✉ [hywelbowen@gmail.com](mailto:hywelbowen@gmail.com) ✉ [randal\\_isaac@hotmail.com](mailto:randal_isaac@hotmail.com)



**Lewis**

**Argraffwaith Gorau  
Gwasanaeth Prydlon**

Lewis Argraffwyr  
33-35 Heol Awst  
Caerfyrddin  
SA31 3AL

Ffôn: 01267 233510  
[www.lewisprinters.co.uk](http://www.lewisprinters.co.uk)

## ~ HYN A'R LLALL ~

## BRIWSION O'R BUARTH

gan Y Lloffwr Bach

Roedd yn dda gen i weld fod fy nghyfeillion yn Rhandir-mwyn a Chil-y-cwm wrthi'n casglu enwau ffermydd a chaeau eu hardaloedd. Man cychwyn y fenter yw Mapiau'r Degwm a luniwyd yn nhridegau a phedwar degau'r 19eg ganrif.



Dydy'r mapiau ar gyfer Cil-y-cwm ddim yn dangos nac yn enwi'r caeau. Fodd bynnag mae yna ffynonellau eraill ar gael. Yn bennaf, bydd rhaid dibynnu ar fapiau ystadau, a luniwyd mewn cyfnod cynharach.

Bydd yn ddiddorol darganfod faint o'r hen enwau sydd wedi goroesi – ac, yn wir, faint o'r caeau eu hunain. Chwalwyd llawer iawn o gloddiau a pherthi i greu un cae mawr newydd, a llyncwyd caeau eraill gan ffermydd cyfagos.

Gallaf glywed ambell un ohonoch yn gofyn beth yw gwerth enwau caeau. Mae'n debygol fod pob darn o dir a gafodd ei ddefnyddio ym mhob cwr o'r byd wedi cael enw. Cafodd caeau eu henwi am resymau ymarferol, ac felly maen nhw'n adlewyrchu rhywbeth nodedig sy'n perthyn i bob cae. Mae'r enwau'n cyfleu neges o'r gorffennol ac yn rhoi awgrym ynglŷn â'r modd y cawsai'r caeau eu defnyddio.

Ymhlith yr enwau mwyaf cyffredin mae **Cae Eithin**. Er bod ffermwyr y dyddiau hyn yn ystyried y llwyni hyn yn elynion, roedden nhw'n cael eu tyfu 'slawer dydd er mwyn eu cynaeafu a'u malu'n fwyd i geffylau.

Ymhlith gelynyddion eraill y ffermwr mae cwningod, ond mewn dyddiau a fu, roedden nhw'n cael eu magu'n arbennig ar gyfer eu cig a'u crwyn, mewn tiroedd caeedig, sef **warens**. Yn yr Oesoedd Canol, roedd cig cwningen yn cael ei ystyried yn ddanteithfwd, ond byddai'r ffermwyr yn gwneud yn siŵr nad oedd y creaduriaid yn cael cyfle i ddianc i ddifetha eu cnydau gwerthfawr.

Ar fferm yn Rhandir-mwyn, mae caeau o'r enw **Waren** Uchaf, **Waren** Ganol a **Waren** Isaf. Bu'r fferm hon yn eiddo i fynaiach Ystrad-fflur, ac mae enwau'r tri chae hyn yn awgrymu fod cwningod yn ffynhonnell incwm bwysig iddyn nhw.

Ar ambell fferm mae **Cae'r Delyn**, ond does a wnelo'r caeau hyn ddim byd ag offeryn cerdd. Os sylwn yn fanwl, fe welwn fod iddyn nhw siâp trionglog, yn debyg i delyn.

Ar un o ffermydd Blaenau Tywi mae cae o'r enw **Cae Pen Milwr**. Hyd yma, does neb yn gwybod cyfnod na hanes y milwr anffodus hwn. Ond mae enw'r cae yn awgrymu fod brwydro wedi digwydd yn y cyffiniau.

Tybed, a oes gennych chi, ddarlennwyr hoff, gaeau ag enwau diddrol ar eich fferm chi neu ar fferm gyfagos. Anfonwch air. Byddai'n dda cael trafod yr enwau yn y golofn hon yn y dyfodol.

## Huw Ynyr enillodd Ysgoloriaeth Bryn Terfel



"Mae'r safon a welwyd yn brawf o'r hyn a welwn yn flynyddol ar lwyfan cenedlaethol yr Urdd".

Dyna farn Aled Siôn Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a anwyd yn Nantgaredig wedi'r cyngerdd yn Theatr y Stiwt, Rhosllannerchrugog.

Yn un o chwech y canwr **Huw Ynyr Evans** oedd ennillydd yr Ysgoloriaeth.

Cyflwynwyd yr Ysgoloriaeth, gwerth £4,000, iddo gan Bryn Terfel.

Dyma oedd penllanw ar weithgareddau Eisteddfod yr Urdd eleni.

Daeth Huw, sy'n wreiddiol o Rydymain ger Dolgellau a chyn-ddisgybl o Ysgol y Gader a Choleg Meirion Dwyfor, i'r brig wedi iddo swyno'r chwe beirniad.

Meddai Huw "Mi ydw i am gadw'r arian, a disgwyl i weld sut mae'r llais yn datblygu ac yna mewn blynyddoedd i ddod ar ôl iddo setlo, gobeithio y gallaf i fynd i astudio'r llais ymhellach."

Mae Huw ar fin cychwyn ei drydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Bangor lle mae'n astudio Cerddoriaeth.

Mae'n wyneb cyfarwydd ar lwyfannau'r Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Wyl Gerdd Dant.

## Cylch Gwragedd Llandeilo a Llanymddyfri a'u Calendr Unigryw

Mae'r flwyddyn yn tynnu i'w therfyn a dyma'r adeg pan ddaw dyddiaduron a chalendrau 2013 yn amlwg yn y siopau.

Erbyn hyn, nid yw Calendr 2013 Cylch Gwragedd Llandeilo a Llanymddyfri mor wahanol â hynny. Mae'n darlunio bywyd gwaith a'r campau yng nhre Llandeilo o safbwynt dwsin o fusnesau'r dre, ond does yr un o'r gwragedd, a rhai gwŷr yn y dwsin o ddarluniau yn gwisgo dillad cynnes.

Amcan y cyfan yw codi arian ar gyfer Adran Beichiogrwydd Cynnar Ysbyty Glangwili a chefnogi ymchwil i geisio gwella Clefyd Huntington. Mae'r calendrau, sy'n £5 yr un, ar werth mewn o leiaf ddwsin o ganolfannau yn Llandeilo.



## Cymorth Cyfieithu i Gymunedau Gwledig Sir Gâr

Mae'r Gymraeg yn dal ei thir ar lafar mewn cymunedau ar draws Sir Gaerfyrddin, ond gall fod yn anodd weithiau i grwpiau a chlybiau ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cyfarfodydd a'u cyhoeddiadau oherwydd y gost. Mae prosiect cyffrous newydd wedi cael ei lansio yn Sir Gaerfyrddin y mis yma a fydd yn helpu mudiadau a grwpiau cymdeithasol yn ardaloedd gwledig y sir i ehangu ar eu defnydd o'r Gymraeg trwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu am bris arbennig iawn.

Mae **Cwmni Trywydd** wedi derbyn grant trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, a phenodwyd cyfieithydd cymunedol i weithio gyda grwpiau ar draws ardal y Cynllun i fynychu cyfarfodydd i gyfieithu ar y pryd, yn ogystal â helpu grwpiau i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith mewn deunyddiau ysgrifenedig, i gyd am bris llawer yn is na phrisiau cwmnïau masnachol.

Gall unrhyw un sydd eisiau trafod y syniad ymhellach, a'r hyn y gallwn ei wneud i'w helpu, gysylltu â Trywydd ar (01558) 825336 neu trwy anfon e-bost at [CC@trywydd.co.uk](mailto:CC@trywydd.co.uk).

Rhan arall o'r prosiect yw cefnogi grwpiau a chymunedau i allu prynu eu hoffer cyfieithu eu hunain, ac i sicrhau bod pobl leol yn gallu eu defnyddio. Hefyd bydd y cyfieithydd cymunedol yn gallu gweithio gyda chymunedau i'w helpu i sicrhau gwasanaeth cyfieithu i'r tymor hir. Hoffai'r Cwmni glywed gan unrhyw unigolyn sy'n barod i helpu ei gymuned trwy wneud gwaith cyfieithu ar sail wirfoddol, a gellir darparu unrhyw gymorth neu hyfforddiant sydd angen arno."

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â John Dixon, (01558) 825336 / 07708 185307, e-bost: [CC@trywydd.co.uk](mailto:CC@trywydd.co.uk)

# # #

## Tystysgrif Ôl-radd Cyfieithu ar y Pryd - beth am roi cynnig arni?

Bydd rhaglen hyfforddi Cyfieithu ar y Pryd newydd sbon yn dechrau ym mis Tachwedd eleni.

Mae cwmni Trywydd, o Gaerfyrddin, wedi cydweithio â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i greu Tystysgrif Ôl-radd Cyfieithu ar y Pryd. Bydd yn gyfle i hyfforddi i fod yn gyfieithydd ar y pryd proffesiynol a chael blas ar gyfieithu yn y gweithle dan arweiniad cyfieithwyr profiadol. Bydd hyfforddeion yn ennill cymhwyster proffesiynol Lefel 7 ymhen blwyddyn. Cynhelir y modwl cyntaf ar 23 a 24 Tachwedd 2012 ar gampws Llanbed.

Bydd disgwyl i'r myfyrwyr gwblhau tri modwl dros gyfnod o flwyddyn drwy fynychu pum sesiwn ddeuddydd ar gampws Llanbed, ac wythnos o brofiad gwaith i'w drefnu gan y Brifysgol mewn amryw leoliadau ledled Cymru. Mae'r cwrs newydd hwn hefyd yn addas i gyfieithwyr mwy profiadol sy'n awyddus i fireinio'u sgiliau ymhellach.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan <http://www.trywydd.co.uk/tystysgrif-ol-radd-mewn-cyfieithu-ar-y-pryd/> neu cysylltwch â Catrin Howells, Pennaeth Gwasanaethau Trywydd ar (01558) 825336 neu [post@trywydd.co.uk](mailto:post@trywydd.co.uk)

## Rysait cacen gri Ann Romney

Rhannodd gwraig yr ymgeisydd arlywyddol, Mitt Romney, rysait cacen gri (pice ar y maen – *Welsh cakes*) pan ymddangosodd ar raglen *Good Morning America*.

Mae Ann Romney eisoes wedi arddel ei gwreiddiau Cymreig a disgrifiodd ei thad-cu o Gymru fel ysbrydoliaeth wedi iddo adael ei waith ym mhyllau glo'r Cymoedd i chwilio am fywyd gwell yn America. Cafodd dipyn o sylw yn y wasg ym mis Awst wedi iddi rannu cacennau cri i deithwyr ar awyren ar y ffordd i gynhadledd y Gweriniaethwyr yn Florida.

### Rysait:

- 1 ŵy
- 1 ¼ cwpan o gyrens
- ½ cwpan o laeth
- 3 ½ cwpan o flawd
- 1 cwpan o siwgr
- 2 lwy de o nytmeg
- ½ llwy de o bowdwr pobi
- ½ llwy de o soda pobi



## Gwerthwyr Y Lloffwr

|                |                               |
|----------------|-------------------------------|
| Brechfa -      | Siop Gymunedol                |
| Caerfyrddin -  | Garej Tanerdy                 |
|                | Siop t-hwnt cyf               |
|                | Siop Y Pentan                 |
| Crugybar -     | New Mill Garage               |
| Cwm-du -       | Swyddfa'r Post                |
| Dryslwyn -     | Siop Gymunedol                |
| Felin-wen -    | Siop Premier a gorsaf betrol  |
| Harford -      | Garej Checkpoint              |
| Llanbed -      | Siop Lomax Llanbed            |
|                | Smotyn Du                     |
| Llandeilo -    | Cegin Fach Y Gwili            |
|                | Garej Rhosmaen                |
|                | Siop Co-op                    |
|                | Siop Igam Ogam                |
|                | Siop Price Papers             |
|                | Siop Spar, Heol Newydd        |
| Llangadog -    | Siop Bapur                    |
| Llanwrda -     | Swyddfa'r Post                |
| Llanwrtyd -    | Llanwrtyd Wells Auto Services |
| Llanybydder -  | Siop Compton                  |
| Llanymddyfri - | Siop Mace, Heol Newydd        |
|                | Garej Morris Isaac            |
|                | Siop Penlan, Sgwâr y Farchnad |
| Manordeilo -   | Garej                         |
| Myddfai -      | Neuadd Gymunedol              |
| Porthyrhyd -   | Swyddfa'r Post                |
| Pumsaint -     | Siop W. D. Lewis              |
|                | Povey New Mill Garej          |
| Rhydaman -     | Siop Y Cennen                 |



## Arolwg

Ydych chi'n gwylio rhaglenni gwledig ar **S4C**? Mae'r sianel yn awyddus i glywed barn ei gwylwyr ar ei rhaglenni gwledig.

Ewch i wefan [www.surveymonkey.com/s/gwledigs4c](http://www.surveymonkey.com/s/gwledigs4c) i gwblhau'r arolwg. Diolch yn fawr am gymryd rhan.

## ~ HYN A'R LLALL ~

### GWRHYDRI NYRS O LANEGWAD

Mae dros drigain mlynedd ers i wraig a hannaï o Lanegwad gyflawni gweithred o wrhydri yn ystod blynyddoedd yr ail ryfel byd, ac nid oes fawr neb yn cofio amdani.

Roedd awyren B17, Flying Fortress yn dychwelyd i America ar 23 Rhagfyr 1944, deuddydd cyn y Nadolig. Yr oedd hi'n rhan o awyrennau a gymrodd ran ym mrwydr "Y Bulge".

Yn anffodus, pan oedd uwchben pentre bychan *Great Rollright* yn Swydd Rhydychen, disgynnodd yr awyren gan ladd wyth o'r naw aelod o'r criw. Pythefnos yn unig roedden nhw wedi bod yn Lloegr.

Llwyddwyd i osgoi tŷ yn y cyffiniau. Yno yr oedd **Eluned Megan Lewis** yn lletya. Yr oedd hi ar y pryd yn nyrsio yn y RANC yn Ysbyty Chipping Norton, Swydd Rhydychen. Rhedodd o'r tŷ a thrwy'r niwl trwchus a llwyddo i ddod o hyd i'r awyren gan dynnu llawer o'r criw yn glir o'r awyren a oedd erbyn hyn wedi ei malurio. Llwyddodd hefyd i gysuro'r cyd beilot yn ei funudau olaf. Mae'r un a oroesodd, Clifford Heinrich yn byw nawr yn Illinois, USA. Oherwydd ei gwrhydri derbyniodd Eluned Megan Lewis gydnabyddiaeth gan QARANC a chyflwynwyd medal iddi gan James Doolittle, Uwchswyddog yn wythfed byddin y Llu Awyr.

Ganwyd Megan ym mis Medi 1912 a chyfeiriad ei chartref ym 1942 oedd Sarn Gelli, Nantgaredig. Aeth Megan, yr ail blentyn o deulu o saith i Ysgol Llanegwad. Fe'i hyfforddwyd yn Ysbyty Abertawe rhwng 1932 a 1936. Yn ystod y rhyfel bu yn y Dwyrain Canol yng nghyfnod Romell. Honnir iddi weithio yn Cairo a Jeriwsalem. Yn y cyfnod yma gwyddys iddi gael caniatâd i ddychwelyd adref i ofalu am ei chwaer, ond ar y daith nôl roedd ganddi ddyletswyddau o ofalu am ddau filwr a anafwyd yn y rhyfel. Yr oedd ei rhieni yn hannu o gyffiniau Peniel. Bu ei mam yn gweini yn Rhydyrhaw a'i thad yn gweithio mewn pwll glo ac ar drenau. Y mae'n bosibl mai yno y collodd ei goes mewn damwain, yn ôl y rhai sydd yn ei gofio. Tybir mai morwr oedd gŵr Megan, ond nid oedd ganddynt blant. Effeithiodd digwyddiadau noson y ddamwain yn arw ar Megan, a bu mewn cysylltiad â mam y peilot a'r dirprwy beilot am gyfnod wedi'r rhyfel.



### Entrepreneuriaid Ifanc y Sir Gaerfyrddin Wledig

Yn sgil prosiect Mentro mae pobl ifanc wedi cael cymorth i ddechrau busnesau yn y Sir Gaerfyrddin wledig.

Mae Mentro yn cael ei gynnal gan Fenter Bro Dinefwr ac mae'n rhan o brosiect Entrepreneuriaeth Wledig RDP Sir Gâr, sy'n rhoi cymorth busnes am ddim i bobl ifanc rhwng 16 a 30 oed.

Eir ati i roi cyngor a chymorth ynghylch dechrau eich busnes eich hun ac i gynyddu ymwybyddiaeth o'r benthyciadau cychwynnol a'r cymorth ariannol sydd ar gael. Hefyd cynigir cymorth o ran creu cynlluniau busnes a llunio cyllidebau.

Mae yna nifer o ardal Dinefwr wedi derbyn cymorth a dyma hanes tri ohonynt.

Cwmni bach sy'n cynhyrchu fideos yw *Oaktale Pictures* ac mae'n cynnig ystod o wasanaethau ffilmiau. Natur annibynadwy'r diwydiant ffilm a theledu a wnaeth ysbrydoli *Oaktale Pictures*. Gall peidio â gwybod o ble a phryd y daw'r gwaith nesaf beri gofid ar adegau felly'r cam rhesymol nesaf yng ngolwg **Jonathan McLaughlin**, 27 oed o Lansadwrn oedd dechrau ei gwmni cynhyrchu fideos ei hun.

Un o'r newidiadau allweddol yn achos *Oaktale Pictures* oedd dod o hyd i'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Mentro.



Gweld blwch yn y farchnad atgyweirio peiriannau torri porfa ac injans bychain eraill a wnaeth sbarduno **Robert Jones** o Lanwrda. Sefydlodd ei gwmni *Grassland Machinery* ar ôl gweithio am nifer o flynyddoedd fel mecanic ceir a cherbydau masnachol. Gan Mentro cafodd awgrymiadau ar sut i greu cynllun busnes a sut i hybu'r busnes yn ei flaen gan wneud Robert yn llawer mwy hyderus.

O dan arweinyddiaeth **Dr Nerys Llewelyn Jones**, mae cwmni *Agri Advisor* yn cynnig cyngor cyfreithiol i ffermwyr a pherchenogion tir ynghylch pob mater amaethyddol. Mae Nerys ac Alan, ei gŵr, yn ffermio hefyd yn Henllan ym Mhumsaint ac mae ei chefnidir ym myd amaeth o gymorth iddi ddarparu gwasanaeth cyfreithiol sy'n bwrpasol at anghenion ei chleientiaid. Fe wnaeth elwa o gynghorion Mentro wrth ystyried sut y gall y busnes dyfu ac osgoi problemau sy'n peri i rai cwmnïau i fethu o fewn y flwyddyn gyntaf.

Dymunir pob llwyddiant i'r tri yn eu busnesau.





## HWYL Y FFERMWYR IFANC



Cynhaliwyd “Noson Bucking Bronco Beefy” ar gae sioe Pontargothi ar nos Wener, 28 Medi i groesawu Dylan Beefy Jones yn ôl i’r Sir fel rhan o’i daith o amgylch Cymru. Mae Dylan, cyn-aelod o G.Ff.I. Dyffryn Tywi ar hyn o bryd yn Gadeirydd C.Ff.I. Cymru, ac wedi bod yn seiclo o amgylch Cymru ar ei feic er mwyn codi arian i Ambiwylans Awyr Cymru. Yn cadw cwmni i Dylan ar ei daith roedd Aled Jones, aelod o G.Ff.I. Dyffryn Cothi ac Aelod Hŷn y Flwyddyn Sir Gâr, Cymru a Lloegr eleni. Dechreuodd eu taith ar 1 Medi yng Ngwent, ac fe wnaeth orffen ar 5 Hydref yng Nghaerdydd.

Bydd Dylan ac Aled wedi seiclo dros 500 milltir erbyn diwedd y daith. Bu’r noson ym Mhontargothi yn llwyddiannus iawn. Roedd bar, rhostio mochyn, DJ a chystadleuaeth Bucking Bronco i gadeiryddion clybiau Sir Gâr. Enillydd y Bucking Bronco oedd Aled Johnson o glwb Dyffryn Tywi.



Diolch i bawb a wnaeth gynorthwyo mewn unrhyw ffordd i wneud y noson mor llwyddiannus.

Os hoffech gyfrannu tuag at Ambiwylans Awyr Cymru, ewch i’r dudalen ganlynol:

<http://uk.virginmoneygiving.com/fundraiser-web/fundraiser/showFundraiserProfilePage.action?userUrl=WalesYFC>

Braf cofnodi fod yr ymdrech anhygoel ddiweddaraf yma wedi codi dros £38,000 i’r elusen.

## Cystadleuaeth Ddarllen

Tîm Sir Gâr yn dathlu ar ôl ennill yn ddiweddar yn Stafford yng nghystadleuaeth Darllen Saesneg i Aelodau Iau gyda Ffederasiwn Clybiau’r Ffermwyr Ifanc. Bu’r tair yn cystadlu yn erbyn goreuon Lloegr a Chymru a chipio’r cwpan i Sir Gâr am y tro cyntaf erioed gyda bwlch o 10 pwynt rhyngddynt â’r tîm ddaeth yn ail. Tipyn o gamp! Roedd yr hyfforddwr Meinir Jones o glwb Llanfynydd wrth ei bodd – ‘Gallen i ddim wedi gofyn gwell ganddyn nhw. Mae’r ffaith eu bod nhw wedi cael y marc uchaf yn hanes y gystadleuaeth yn dweud y cyfan am ddoniau’r merched ifainc hyn’, meddai.

Llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu llwyddiant ac mae’n dda gweld bod siaradwyr Cymraeg yn gallu llwyddo cystal mewn cystadleuaeth siarad cyhoeddus Saesneg.

## CYLCH MEITHRIN FFAIR-FACH



Megan, Cayne a Harrison - enillwyr cystadleuaeth peintio gyda bys yn Sioe Trap.

## YSGOL GYNRADD CWRT HENRI Cyrrddau Diolchgarwch Cwrt Henri

Cafwyd gwasanaeth diolchgarwch hyfryd unwaith eto eleni yn Eglwys y Santes Fair gyda darlleniadau ac eitemau pwrpasol gan ddisgyblion Ysgol Cwrt Henri. Cynhaliwyd y gwasanaeth o dan gyfarwyddyd ac arweiniad medrus Mrs Maureen Kilby. Diolch i’r plant am gymryd at eu gwaith mor ddeheuig a chywrain. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd lluniaeth bendigedig yn Yr Ystafell Ddarllen wedi’i baratoi gan wragedd yr Eglwys. Diolch i bawb.

Cynhaliwyd ail wasanaeth diolchgarwch yr ysgol, ar 16 Hydref, yng nghapel Cross Inn yn seiliedig ar waith Barnado’s Cymru. Daeth cynulleidfya gref i gefnogi’r disgyblion a chafwyd cyflwyniadau graenus gan bob unigolyn. Roedd hi’n hyfryd i weld y disgyblion yn canu mor swynol ac wedi gwneud cystal ymdrech i ddysgu eu gwaith ar y cof. Da iawn wir. Cafwyd croeso twymgalon o dan arweiniad y Parchedig Ian Sims ac anerchiad hynod gofiadwy gan y Parchedig Aaron Treharne ar y testun o ddiolch. Paratowyd gwledd o ddanteithion i bawb yn dilyn y gwasanaeth gan garedigion y capel. Carwn ddiolch i gyfeillion y capel, yr eglwys a’r gymuned gyfan am eu cefnogaeth gyson a pharod i’r achlysuron arbennig yma.



Gwennan Campbell (C.Ff.I. Llanfynydd), Delyth Davies (C.Ff.I. Capel Dewi) a Nia Eyre (C.Ff.I. Llanfynydd)

## ~ ADRAN YR YSGOLION ~

### YSGOL YR EGLWYS LLANFYNYDD

Mae'r tymor newydd wedi bod yn llawn digwyddiadau yn yr ysgol. Er gwaetha'r tywydd gwlyb roedd cnwd da o fwyar duon wedi tyfu yng ngardd yr ysgol. Mi wnaethon ni eu casglu a'u defnyddio nhw i goginio myffins iachus. Roedden nhw yn flasus iawn!



Aeth y plant lleiaf gyda Miss Hogarth i'r Jambori yn Llandeilo. Cawson nhw amser ardderchog yn canu a dawnsio. Buodd yr ysgol gyfan i gyngerdd offerynnol yng Nghaerfyrddin. Roedd yn arbennig o dda.

Pob blwyddyn rydyn ni yn cymryd rhan yng ngwasanaethau Diolchgarwch Eglwys Llanfynydd, Capel Spite a Chapel Amor.



Eleni cyflwynon ni stori Ruth i'r gynulleidfa. Ar ôl y gwasanaethau cafwyd te blasus iawn. Hefyd, codwyd swm sylweddol o arian tuag at Barnardos. Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu.

**Elin Worsley, Blwyddyn 6**

### YSGOL GYNRADD LLANDEILO

Ar gyfer Mawrth 2012 yr ysgol oedd Ysgol Masnach Deg y mis. Golygai hyn bod yr ysgol yn gwerthu, cefnogi a defnyddio deunyddiau Masnach Teg. Hefyd roedd y disgyblion yn dysgu am Fasnachu Teg mewn o leia dri testun ymhob grŵp am ddwy flynedd a bod yr ysgol yn cefnogi masnachu teg allan yn y gymuned.

Tystiodd cydlynnydd eco'r prosiect, Mrs Delyth Rees mai ymdrech yr ysgol gyfan a sicrhodd y llwyddiant yma.



Mrs Dawn Wallace (Maeres Llandeilo) a Mr Richard Wallace yn cyflwyno tystysgrif i Mrs Delyth Rees a disgyblion yr ysgol Tyler Mitchel, Andrew Dyer, Eve Cully, Cai Williams a Tara Gardner.

### YSGOL GYNRADD TALYLLYCHAU

Cynhaliodd Ysgol Talyllychau eu gwasanaeth diolchgarwch eleni eto yn yr Eglwys. Cafodd y plant brynhawn hyfryd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Diolch yn fawr i Mr John Wallford a phawb o'r Eglwys am y croeso a'r te blasus. Codwyd £72 yn y casgliad tuag at yr elusen Cymorth Cristnogol. Rhoddwyd y llysiau a'r ffrwythau i gartref gofal yn yr ardal.





## ~ EISTEDDFOD C.F.F.I. SIR GÂR 2012 ~



1af - Canu emyn - Ffion Jones, Llanfynydd



1af - Cerdd Dant - Pedwarawd Llanfynydd



1af - Perfformio sgets - Dyffryn Cothi



1af - Cân bop - Heledd Thomas, Llangadog



1af - Deuawd ddoniol - Deian Thomas ac Endaf Griffiths, Dyffryn Cothi



Rhian Howells Jones yn cyflwyno'r gadair i Meinir Jones, Llanfynydd

**mae gen ti ddewis...** i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg